Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Cynllun gwaith Ofcom 2021/22

## Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mawrth 2021

# Cynnwys

## Adran

1. Rhagair gan y Prif Weithredwr 1

2. Trosolwg 3

3. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 9

4. Cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr ledled y DU 32

## Atodiad

A1. Beth rydym yn ei wneud 39

A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2021/2022 41

# 1. Rhagair gan y Prif Weithredwr



Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU, gyda chenhadaeth i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Rydym yn gwasanaethu buddiannau defnyddwyr a busnesau ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU, drwy ein gwaith ym maes telegyfathrebiadau sefydlog a symudol, darlledu, sbectrwm, post a gwasanaethau ar-lein.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dysgu pa mor bwysig yw cysylltedd. Mae gwasanaethau cyfathrebiadau dibynadwy ac o safon yn bwysicach nag erioed i fywydau pobl. Ond wrth i ddefnyddwyr newid eu harferion i fod fwyfwy ar-lein, mae ein sectorau cyfathrebiadau yn trawsnewid yn gyflym. Mae'n adeg gyffrous i'n diwydiannau ac i Ofcom fel rheoleiddiwr - mae'n galw am ffocws hirdymor ochr yn ochr â chyflymder ac ystwythder mewn ymateb i newid. Yn y cyd-destun hwn, mae ein hymgynghoriad yn manylu ar ein nodau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

O ran telegyfathrebiadau, mae Ofcom newydd gadarnhau fframwaith hirdymor newydd ar gyfer buddsoddi mewn rhwydweithiau sefydlog sy'n gallu delio â gigabit. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar helpu i gyflawni'r rhaglen hon, ochr yn ochr ag arloesi a buddsoddi mewn 5G a seilwaith symudol newydd. Yn dilyn deddfwriaeth y Senedd Brydeinig, byddwn yn rhoi rheolau newydd ar waith i ddal gweithredwyr yn atebol am ddiogelwch a chadernid eu rhwydweithiau. Byddwn yn parhau i gefnogi defnyddwyr, gan eu galluogi i fanteisio ar y dewisiadau sydd ar gael, a chamu i mewn i ddiogelu eu buddiannau pan fydd angen.

Mae rheoli sbectrwm radio'r DU wrth galon gwaith Ofcom o hyd. Mae ein Strategaeth Sbectrwm yn cefnogi arloesedd mewn technolegau di-wifr a fydd yn cefnogi ystod eang o ddefnyddiau, yn amrywio o awtomeiddio ffatrïoedd ac amaethyddiaeth i fonitro ein hamgylchedd naturiol i ddeall effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae gwylwyr a gwrandawyr yn gwerthfawrogi sectorau darlledu a radio'r DU yn fawr, ond mae angen i'r sectorau hyn addasu'n gyflym i dechnolegau newydd a newidiadau mewn ymddygiad gwylwyr. Byddwn yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth y DU ar sut i greu amgylchedd cryf a chystadleuol ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'n hadolygiad cyfnodol o'r BBC ac yn dechrau moderneiddio ei drwydded weithredu. Byddwn yn parhau i oruchwylio cystadleuaeth a safonau cynnwys ar draws y diwydiant ac yn dal darlledwyr i gyfrif am wella amrywiaeth ar y sgrin ac oddi arni.

Eleni, mae ein cylch gwaith yn ehangu i gynnwys diogelwch gwasanaethau ar-lein. Ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau yn ymwneud â'n rôl newydd yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cadarnhau mai Ofcom fydd y rheoleiddiwr ar gyfer trefn diogelwch ar-lein newydd, ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth. Bydd dull gweithredu Ofcom ar gyfer y rolau newydd hyn yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o anghenion a disgwyliadau defnyddwyr ar-lein, ac yn seiliedig ar ein profiad hirsefydlog o gydbwyso rhyddid mynegiant â diogelwch rhag niwed.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn cyflymu ein paratoadau i ymgymryd â’r tasgau newydd sylweddol hyn. Byddwn yn datblygu ein harbenigedd yn sylweddol ym maes technolegau digidol, dadansoddi data a seiberddiogelwch, a byddwn yn cryfhau cysylltiadau â’n cyd-reoleiddwyr digidol a phartneriaid eraill. Rydym yn edrych ymlaen at agor swyddfa newydd ym Manceinion a fydd yn sail i’n gwaith newydd ar ddiogelwch rhwydweithiau telegyfathrebiadau a diogelwch ar-lein.

Hoffwn ddiolch i bawb a ymatebodd i’n hymgynghoriad ar gynllun gwaith eleni, ac a ddaeth i’n digwyddiadau ar-lein, gan ein helpu i lunio ein rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae eich diddordeb a’ch mewnbwn yn rhan hanfodol o’n gwaith a gobeithio, wrth i ni ymrwymo i’n cynllun, y byddwch chi’n parhau i ddilyn ein cynnydd drwy gydol y flwyddyn gyffrous hon.



Y Fonesig Melanie Dawes, y Prif Weithredwr

# 2. Trosolwg


## Mae gwasanaethau cyfathrebiadau yn bwysicach nag erioed

2.1 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cysylltedd wedi bod yn bwysicach nag erioed. Mae effaith y pandemig wedi gweddnewid ein bywydau wrth i'r diwydiannau cyfathrebiadau oresgyn heriau mawr o ran darparu adloniant, gwybodaeth a chysylltedd i bobl yn y DU.

2.2 Mae mynediad at fand eang dibynadwy wedi dod yn wasanaeth hanfodol. Mae ei angen arnom ar gyfer cymaint o'n bywydau o ddydd i ddydd, p'un a ydym yn gwylio BBC iPlayer, yn rhannu lluniau gyda ffrindiau a theulu ar WhatsApp, yn ymuno â dosbarthiadau ar-lein drwy Zoom, yn siopa am nwyddau, neu'n talu bil treth drwy GOV.UK. Mae band eang dibynadwy hefyd wedi cadw'r wlad yn gynhyrchiol gyda llawer o weithwyr yn symud i weithio o bell. Mae pobl yn treulio tua thair awr a hanner ar-lein bob dydd ar ffonau clyfar, tabledi a chyfrifiaduron a dros awr yn gwylio gwasanaethau tanysgrifio fideos ar-lein.

2.3 Mae hyn i gyd wedi arwain at lefelau uwch nag erioed o draffig ar draws rhwydweithiau sefydlog a symudol y DU, sydd wedi aros yn gadarn er gwaethaf y galw ychwanegol roeddent yn ei wynebu. Yn y cyfamser, mae rhwydweithiau danfon a phost y DU wedi darparu nwyddau hanfodol ac wedi bod yn achubiaeth i lawer wrth i ni newid i siopa ar-lein. Mae niferoedd parseli wedi ffynnu, er bod pobl yn dal i anfon llai o lythyrau.

2.4 Cyrhaeddodd teledu a radio gynulleidfaoedd mwy nag erioed o'r blaen gan ddarparu newyddion cywir, o safon a oedd yn arbennig o bwysig o gofio'r gamwybodaeth a'r wybodaeth gamarweiniol am y pandemig. Ym mis Ebrill 2020, roedd gwylwyr yn gwylio hyd at 6 awr a 25 munud o gynnwys bob dydd, awr a hanner yn fwy nag yn 2019. Roedd gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw fel Netflix wedi elwa, ond felly hefyd y darlledwyr traddodiadol a roddodd wybodaeth, addysg ac adloniant i ni yn erbyn cefndir masnachol heriol gyda chyfyngiadau sylweddol ar gynhyrchu a llai o refeniw hysbysebu.




2.5 Cyfrannodd llwyfannau ar-lein at y gwaith o'n cadw ni mewn cysylltiad a chymerodd llwyfannau fel Twitter, Facebook a Google gamau angenrheidiol a chalonogol i fynd i'r afael â chamwybodaeth am y coronafeirws, yn ogystal â hyrwyddo ffynonellau newyddion dibynadwy.

2.6 Gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi sefydlu arferion newydd a fydd yn effeithio ar y rhwydweithiau a'r gwasanaethau cyfathrebiadau rydym yn dibynnu arnynt. Ar yr un pryd, mae'n amlwg bod rôl gwasanaethau cyfathrebiadau – post, telegyfathrebiadau, darlledu a gwasanaethau ar-lein – yn dod yn fwy canolog byth i'n bywydau ni ac i'r economi.

## Mae angen i rwydweithiau'r DU ddiwallu'r galw am gysylltedd nawr ac yn y dyfodol

2.7 Mae angen i bobl ym mhob rhan o'r DU allu mynd ar-lein gartref ac wrth deithio. Mae rhwydweithiau sefydlog a symudol yn parhau i ehangu eu darpariaeth. Ar ddiwedd 2020, roedd band eang cyflym iawn a rhwydweithiau 4G ar gael i 96% a 98-99% o gartrefi'r DU yn y drefn honno. Mae gweithredwyr symudol yn cyflwyno'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) a fydd yn darparu 4G i 95% o dirfas y DU erbyn 2025.

2.8 Ond wrth i'r defnydd o wasanaethau cyfathrebiadau barhau i gynyddu, felly hefyd y bydd yr angen am wasanaethau cyflymach a mwy dibynadwy. Mae pobl a busnesau wedi mynnu mwy o led band eleni, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo. Ar Ŵyl San Steffan 2020, roedd rhwydweithiau'r DU yn wynebu cyfnodau brig newydd o ran traffig ar y rhyngrwyd, gyda 210 petabeit o ddata yn cael ei ddefnyddio drwy rwydwaith Openreach.[1] Roedd rhwydweithiau'r DU yn dal i fod yn gadarn drwy gydol y pandemig, ond bydd angen rhagor o fuddsoddiad i wneud yn siŵr eu bod yn gallu parhau i ateb y galw.

2.9 Mae angen i ddarparwyr rhwydwaith hefyd fuddsoddi mewn technolegau ar gyfer y dyfodol, er mwyn rhoi'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr. Dull gweithredu Ofcom yw hyrwyddo cystadleuaeth er mwyn eu hysgogi i wneud hyn. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi rheolau i hybu buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn yn ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol. Nesaf, bydd ein strategaeth symudol yn ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddarparu arloesedd a chysylltedd symudol o safon.

2.10 Gan ein bod yn treulio cymaint o'n bywydau ar-lein erbyn hyn, mae diogelwch a chadernid ein rhwydweithiau'n hanfodol, nid yn unig i fodloni gofynion cynyddol ond hefyd o ran bygythiadau i ddiogelwch. Bydd Ofcom yn cael pwerau cryfach yn ddiweddarach eleni i wneud yn siŵr bod gweithredwyr yn parhau i fuddsoddi yn niogelwch eu rhwydweithiau.

2.11 Ochr yn ochr â buddsoddi yn y dyfodol, mae gwaith i'w wneud o hyd i ddarparu gwell mynediad at ddarpariaeth symudol a band eang ddigonol ledled y DU ar hyn o bryd. Roedd diffyg cysylltedd yn ystod y pandemig yn tynnu sylw at yr heriau i'r rheini nad ydynt yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hyn – naill ai oherwydd nad ydynt ar gael yn eu hardal nhw neu oherwydd eu bod yn cael eu heithrio am resymau ariannol. Bydd Ofcom yn parhau i weithredu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar gyfer band eang sefydlog, sy'n rhoi'r hawl i ofyn am gysylltiad fforddiadwy a theilwng. Bydd hefyd yn helpu rhai o'r 190,000 o adeiladau sydd heb fynediad o'r fath ar hyn o bryd.[2] Fodd bynnag, efallai

[1] https://www.openreach.com/news/uk-broadband-usage-more-than-doubled-in-2020---driven-by-live-sport-online-gaming-and-home-working/

[2] https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/broadband-uso-need-to-know

y bydd costau adeiladu uchel iawn yn rhai o'r lleoliadau mwyaf anghysbell ar draws y DU yn golygu na fydd y Rhwymedigaeth hon ar gyfer band eang yn darparu ar eu cyfer, felly byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth i archwilio'r opsiynau ar gyfer yr adeiladau anoddaf eu cyrraedd. A byddwn yn parhau i fonitro lle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, gan ystyried a oes angen unrhyw fesurau i gefnogi mynediad at wasanaethau cyfathrebiadau ar gyfer y rheini sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol. Dangosodd ein hymchwil y llynedd fod tua un o bob pum teulu wedi cael anawsterau ariannol yn ymwneud ag o leiaf un o'u gwasanaethau cyfathrebiadau.

2.12 Mae mwy o'n bywydau o ddydd i ddydd yn symud ar-lein, felly hefyd y mae mwy o rannau o'r economi, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yr arwerthiant sbectrwm diweddaraf yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau 5G ac yn helpu i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am gysylltedd di-wifr. Bydd technolegau di-wifr yn galluogi arloesi mewn meysydd mor amrywiol ag awtomeiddio ffatrïoedd a monitro ein heffaith amgylcheddol, yn ogystal â chefnogi gweithrediadau porthladdoedd a meysydd awyr a gwella sut caiff gwasanaethau iechyd eu darparu.

2.13 Dim ond rhan o'r rôl mae sbectrwm yn ei chwarae o ran cefnogi sectorau a gwasanaethau pwysig yw hyn. Drwy wneud yn siŵr bod defnyddwyr cyfreithlon yn gallu defnyddio sbectrwm, rydym yn cefnogi gwasanaethau allweddol mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys darlledu teledu a radio, cyfathrebiadau lloeren, cludo nwyddau, rheoli cyfleustodau a'r gwasanaethau brys.

## Rydym ni eisiau cefnogi arloesedd yn ein sectorau ar yr un pryd â diogelu cwsmeriaid

2.14 Gyda chymaint o newid yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, mae angen i reoleiddio Ofcom greu'r lle i fusnesau addasu eu gwasanaethau a buddsoddi mewn technolegau, cynnwys a seilwaith newydd. Mae'r sectorau hyn yn gwneud cyfraniad mawr at economi'r DU ac rydym am sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi, gyda'r gystadleuaeth yn arwain at fargen deg i bobl ledled y DU.

2.15 Eleni, bydd tegwch i gwsmeriaid a diogelu defnyddwyr yn flaenoriaeth i ni o hyd, ar draws pob sector. Dylai pobl a busnesau allu bod yn ffyddiog bod marchnadoedd yn gweithredu'n ddidwyll, p'un a ydynt yn ceisio dod o hyd i'r fargen iawn neu wrth newid rhwng darparwyr. Mae diogelu pobl agored i niwed a'r rheini sy'n cael eu heithrio o wasanaethau cyfathrebiadau yn bryder mawr. Mae cwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu mwyaf y DU wedi ymrwymo i'n chwe ymrwymiad ar Degwch i Gwsmeriaid, a byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i gyflawni'r ymrwymiadau hyn. Byddwn hefyd yn ystyried anghenion defnyddwyr post ac a ydynt yn cael eu diogelu'n ddigonol fel rhan o'n hadolygiad ehangach o reoleiddio'r post.

2.16 Mae sector darlledu'r DU yn esblygu'n gyflym. Mae rhwydweithiau band eang mwy galluog ac arloesedd technolegol yn gweddnewid y ffordd y mae cynulleidfaoedd yn cael mynediad at gynnwys. Mae tirwedd crewyr cynnwys, cyd-gasglwyr a llwyfannau wedi dod yn fwy cymhleth. Mae dewis na welwyd ei debyg o'r blaen a mwy o ehangder mewn cynnwys

proffesiynol a chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr wedi arwain at fanteision enfawr i gynulleidfaoedd. Ond mae hefyd yn golygu bod cynulleidfaoedd yn mynd yn fwyfwy darniog, gan gyflwyno heriau i ddarlledwyr yn y DU.

2.17 Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau cychwynnol ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Gwelsom fod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr a bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan hollbwysig drwy fod yn sail i economi greadigol y DU, gan gynrychioli cynulleidfaoedd amrywiol ac adlewyrchu'r DU iddi'i hun. Fodd bynnag, mae angen i ddarlledwyr traddodiadol arloesi i gystadlu â chystadleuwyr mwy newydd, gan gynnwys cwmnïau technoleg byd-eang. Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi ymgynghori ynghylch sut gallai fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus edrych yn y dyfodol, a byddwn yn cyflwyno ein hargymhellion i'r Llywodraeth yn ystod yr haf. Byddwn hefyd yn parhau i ddal y sectorau teledu a radio i gyfrif am amrywiaeth ar y sgrin ac oddi arni, er mwyn iddynt adlewyrchu pobl ledled y DU.

2.18 Mae diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed ar y teledu a'r radio hefyd yn dal yn rhan ganolog o'n gwaith. Eleni, rydym wedi gweld mwy o gwynion nag erioed o'r blaen, wedi'u sbarduno'n rhannol gan gamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol yn ymwneud â'r pandemig.

2.19 Mae diogelu pobl rhag cynnwys niweidiol ar-lein yr un mor bwysig ag ar y teledu a'r radio traddodiadol. Mae ein hymchwil yn dangos bod traean o bobl yn credu bod y risgiau o fod ar-lein – iddyn nhw neu eu plant – wedi dechrau gorbwyso'r manteision. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflawni ein dyletswydd newydd i wneud yn siŵr bod llwyfannau rhannu fideos (VSPs) sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn cymryd mesurau priodol i amddiffyn plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol iddyn nhw, ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag cynnwys troseddol a deunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb.

2.20 Yn ddiweddarach eleni, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno deddfwriaeth i roi dyletswyddau newydd i Ofcom fel rhan o'i drefn diogelwch ar-lein. Byddwn yn cynyddu ein paratoadau ar gyfer y rôl newydd bwysig hon, gan adeiladu ar ein cyfrifoldebau dros VSPs, yn ogystal â defnyddio ein rhaglen llythrennedd yn y cyfryngau ('Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau'), a'n profiad helaeth o ddiogelu gwylwyr a gwrandawyr rhag niwed ar yr un pryd â chadw rhyddid mynegiant.

## Mae Ofcom yn esblygu'r ffordd rydym yn gweithio i ateb yr heriau hyn

2.21 Eleni rydym yn barod i addasu a datblygu wrth i ni gadw i fyny â newidiadau ar draws ein sectorau a deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â diogelwch y rhwydwaith a diogelwch ar-lein.

2.22 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu ein harbenigedd mewn meysydd fel dadansoddi data a thechnoleg ddigidol. Gyda'n cyfrifoldebau newydd, byddwn yn rhoi newid sylweddol ar waith o ran ein sgiliau a'n galluoedd yn y meysydd hyn ac mewn technolegau newydd, marchnadoedd digidol, a gyrwyr masnachol llwyfannau ar-lein.

2.23 Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â'n cynllun[3] – sy'n cynnwys targedau ymestynnol ar gyfer 2025 – i adeiladu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol, gan ein galluogi i ddenu'r doniau gorau sydd ar gael yn y DU. Eleni byddwn yn agor canolfan newydd ym Manceinion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelwch ar-lein, y sector technoleg a diogelwch y rhwydwaith. Byddwn hefyd yn awyddus i gynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast i sicrhau ein bod yn gallu denu doniau gorau'r DU a'n bod yn cynrychioli pob rhan o'r DU.

2.24 Mae annibyniaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn rhan bwysig o'n fframwaith cyfreithiol. Yn ogystal â hyn, wrth i'n diwydiannau wynebu newid na welwyd ei debyg o'r blaen, bydd ein partneriaethau â sefydliadau eraill yn dod yn bwysicach fyth. Mae hyn yn cynnwys diwydiant, y byd academaidd, elusennau ac arbenigwyr eraill, yn ogystal â'n cyd-reoleiddwyr gartref ac yn rhyngwladol, a llywodraethau ledled y DU. Yn benodol, wrth i Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gynllunio ar gyfer cyfrifoldebau newydd yn y byd digidol, mae angen i ni gydweithio'n agosach fyth ar ran y defnyddiwr i wneud yn siŵr bod y llwyfannau'n cystadlu'n deg, yn defnyddio data pobl yn briodol ac yn diogelu rhag niwed.[4] Gyda'n gilydd, fel y Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol, fe wnaethom gyhoeddi cynllun gwaith newydd ar y cyd ym mis Mawrth 2021 ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi newid sylweddol yn ein gwaith ar y cyd fel tri chorff rheoleiddio annibynnol.[5]

2.25 Mae'r cynllun gwaith hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod 2021/22 i sicrhau bod Ofcom yn chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r heriau i bobl a busnesau yn y DU heddiw, ac yn y dyfodol.

[3] Rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant Ofcom
[4] Bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ymuno â'r DRCF fel aelod o fis Ebrill 2021 ymlaen.
[5] Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol: Cynllun gwaith ar gyfer 2021 i 2022 (ofcom.org.uk)

2.26 Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf:

- **Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel.** Byddwn yn cefnogi buddsoddiad parhaus mewn band eang cyflymach a rhwydweithiau symudol o ansawdd gwell. Byddwn hefyd yn parhau i roi deddfwriaeth diogelwch telegyfathrebiadau ar waith, gan weithio gyda’r diwydiant i sicrhau bod rhwydweithiau cyfathrebiadau hanfodol y DU yn ddiogel ac yn gadarn.
- **Cael pawb wedi cysylltu.** Rydym am wneud yn siŵr bod pobl a busnesau yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebiadau allweddol. Byddwn yn parhau â’n gwaith i wella mynediad at wasanaethau band eang yn y lleoliadau anoddaf eu cyrraedd. Byddwn yn monitro sut mae’r gwasanaeth band eang cyffredinol yn cael ei ddarparu a byddwn yn adrodd ar gynnydd i wella darpariaeth symudol o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth post cyffredinol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- **Tegwch i gwsmeriaid.** Rydym am i bobl siopa o gwmpas yn hyderus, gwneud dewisiadau gwybodus, newid yn rhwydd a chael bargen deg ac i farchnadoedd weithio’n dda er mwyn i bobl allu gwneud yr union beth hwnnw. Fel rhan o hynny, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod cwsmeriaid band eang, ffôn a theledu, yn enwedig cwsmeriaid agored i niwed, yn cael eu trin yn deg.
- **Cefnogi a datblygu darlledu yn y DU.** Byddwn yn cefnogi sector cyfryngau bywiog y DU, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan ei helpu i esblygu i ddiwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr. Byddwn hefyd yn parhau i adrodd ar berfformiad y BBC ac yn monitro ei effaith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei genhadaeth a’i ddibenion cyhoeddus.
- **Paratoi i reoleiddio niwed ar-lein.** Byddwn yn rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos sydd wedi’u sefydlu yn y DU o dan y drefn newydd, a fydd yn darparu sylfaen gref cyn cyflwyno cyfreithiau diogelwch ar-lein ehangach. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer niwed ar-lein ac rydym yn paratoi ar gyfer y rôl newydd arfaethedig hon, ar yr amod bod y Senedd Brydeinig yn pasio’r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

Yn ogystal â’r gwaith hwn, byddwn hefyd yn cymryd camau i wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein dyletswyddau nawr ac yn y dyfodol.

- **Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol.** Wrth i’n sectorau a’n dyletswyddau gael eu llywio fwyfwy gan wasanaethau ar-lein, byddwn yn buddsoddi yn ein sgiliau, yn datblygu arferion gweithio arloesol ac yn adeiladu gweithlu amrywiol sy’n adlewyrchu’r DU gyfan.
- **Datblygu partneriaethau newydd.** Byddwn yn datblygu partneriaethau newydd ac yn adeiladu ar bartneriaethau domestig a rhyngwladol presennol gyda rheoleiddwyr, y byd academaidd, llywodraethau, diwydiant a sefydliadau ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio er mwyn gwella ein dealltwriaeth a hyrwyddo manteision i ddefnyddwyr.

# 3. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2021/22

3.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n bodloni pawb. Mae ein dyletswyddau wedi cael eu nodi mewn nifer o ddeddfau Seneddol. Ein prif ddyletswydd yw datblygu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yng nghyswllt materion cyfathrebiadau, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Mae rhagor o wybodaeth am ein dyletswyddau statudol ar gael yn Atodiad 1.

3.2 Mae Llywodraeth y DU wedi gosod ei blaenoriaethau polisi mewn perthynas â thelegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post yn y Datganiad Blaenoriaethau Strategol (SSP).[6] Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Rydym wedi gwneud hynny wrth ddatblygu'r cynllun gwaith hwn, fel a ganlyn:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf**. O dan y thema 'Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel', rydym yn hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a defnyddio sbectrwm er budd pobl a busnesau. Rydym yn rhannu ymrwymiad y Llywodraeth i seilwaith digidol o'r radd flaenaf ar gyfer y DU, ac mae ein gwaith yn ystyried casgliadau Adolygiad y Llywodraeth o Seilwaith Telegyfathrebiadau'r Dyfodol.[7]
- **Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telegyfathrebiadau.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddiogelu buddiannau defnyddwyr telegyfathrebiadau, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed. O dan y thema 'Tegwch i gwsmeriaid' rydym yn rhoi sylw i faterion fel newid darparwr, prisio, a defnyddio data defnyddwyr sy'n cefnogi'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol.
- **Seilwaith telegyfathrebiadau diogel a chadarn.** Mae ein gwaith o dan y thema 'Buddsoddi mewn rhwydweithiau cadarn a diogel' yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau.
- **Gwasanaethau post.** Mae ein gwaith parhaus yn 'Cael pawb wedi cysylltu', yn cynnwys adolygu a oes angen i'r modd y caiff y sector ei reoleiddio newid yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad ac anghenion esblygol defnyddwyr.

3.3 Rydym yn nodi'r meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn isod. Mae hyn yn cynnwys manylion a cherrig milltir pwysig ein rhaglenni a'n prosiectau â blaenoriaeth. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir.

---

[6] https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-strategic-priorities


[7] Adolygiad o Seilwaith Telegyfathrebiadau'r Dyfodol - GOV.UK (www.gov.uk)

## Blaenoriaethau strategol

# Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf, diogel

**Rydym eisiau annog buddsoddiad yn rhwydweithiau cyfathrebiadau'r DU drwy greu amgylchedd rheoleiddio cefnogol sy'n darparu'r band eang cyflymach a'r rhwydweithiau symudol o ansawdd gwell sydd eu hangen ar bobl. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod rhwydweithiau hanfodol y DU yn ddiogel ac yn gadarn.**

3.4 Diolch i'r buddsoddiad yn ein seilwaith cyfathrebiadau, mae 96% o gartrefi yn y DU nawr yn gallu cael band eang cyflym iawn (cyflymder lawrlwytho o 30Mbit yr eiliad o leiaf) ac, ym mis Rhagfyr 2020, roedd gan 18% o gartrefi fynediad at fand eang ffeibr llawn. Mae mwy o ddefnydd o wasanaethau cyfathrebiadau yn ystod y cyfnodau clo wedi dangos bod angen rhwydweithiau gwell a chyflymach arnom i gadw i fyny ag anghenion newidiol pobl. Rhaid i ni nawr wneud mwy i adeiladu ein seilwaith a chreu'r amodau ar gyfer mwy o gysylltedd.




3.5 Mae ein dibyniaeth gynyddol ar wasanaethau cyfathrebiadau yn golygu ei bod hi'n hanfodol bod rhwydweithiau'n ddibynadwy ac yn gadarn - yn enwedig mewn argyfwng ac ar adegau heriol. Rydym ni eisiau annog cwmnïau cyfathrebiadau i sicrhau bod eu rhwydweithiau'n gryf, yn ddiogel ac wedi'u gwarchod yn wyneb toriadau posibl.

3.6 Mae'r ddibyniaeth gynyddol hon ar wasanaethau cyfathrebiadau yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer ymosodiadau seiber, felly mae angen i ni gael y diwydiant i barhau i fuddsoddi yn niogelwch eu rhwydweithiau. Bydd Ofcom yn chwarae mwy o ran mewn diogelwch telegyfathrebiadau yn dilyn deddfwriaeth.

3.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd ein blaenoriaethau allweddol yn cynnwys:

- **Strategaeth symudol.** Byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer ein hymagwedd at y sector sy'n sail i'n gwaith rheoleiddio yn y dyfodol ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu cysylltedd ac arloesedd o safon i ddiwallu anghenion pobl yn y dyfodol. Byddwn yn edrych ar y newidiadau sy'n digwydd yn y sector, yn ogystal ag effaith newidiadau y tu allan iddo, er mwyn asesu sut mae'r farchnad yn gweithio a sut mae'n debygol o esblygu dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar rôl gynyddol cwmnïau technoleg mawr a'r potensial ar gyfer mwy o gydgyfeirio symudol sefydlog. Bydd yr adolygiad dau gam yn canolbwyntio'n gyntaf ar gasglu tystiolaeth, gan gynnwys dogfen drafod i wahodd barn rhanddeiliaid, ac yna'n ail yn adeiladu ar ymatebion rhanddeiliaid i ddod i gasgliadau cychwynnol, gan nodi unrhyw gamau nesaf.
- **Gweithredu fframwaith diogelwch telegyfathrebiadau.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i weithredu ei deddfwriaeth diogelwch telegyfathrebiadau, gan weithio gyda'r diwydiant, i sicrhau bod gweithredwyr yn glynu wrth rwymedigaethau diogelwch cryfach.

3.8 Ochr yn ochr â'r prif flaenoriaethau a amlinellir uchod, bydd ein rhaglen waith barhaus yn helpu pobl a busnesau i gael y rhwydweithiau cyfathrebiadau sydd eu hangen arnynt. Mae ein gwaith o dan y thema hon yn cynnwys:

- **Hyrwyddo'r broses o gyflwyno ffeibr.** Bydd buddsoddi mewn ffeibr yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol i ni. Gan fod ein Hadolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol bellach wedi dod i ben, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r broses o gyflwyno ffeibr drwy ein gwaith gan sicrhau bod gan ddarparwyr fynediad at bibellau a pholion Openreach, gan gefnogi'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyflymach a pharatoi ar gyfer ymddeol y rhwydwaith copr, ar yr un pryd ag ymgysylltu'n ehangach ag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys buddsoddwyr.
- **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Byddwn yn parhau i fonitro sut mae gwahanu Openreach yn gyfreithiol oddi wrth BT yn 2017 yn gweithio'n ymarferol. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad monitro blynyddol nesaf ar y cynnydd a gasglwyd yn 2020, a byddwn yn pwyso a mesur yr amseru priodol i gynnal adolygiad strategol ehangach ynghylch a yw'r trefniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd gan yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol.[8]

[8] Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol. Ofcom, 25 Chwefror 2016.

# Gwaith sbectrwm Ofcom

Mae sbectrwm radio yn cysylltu ein byd digidol. Mae sbectrwm yn adnodd cyfyngedig ond os caiff ei ddefnyddio'n ddoeth, gall barhau i drawsnewid sut rydym yn byw ac yn gweithio - gan helpu i'n gwneud yn fwy cynhyrchiol, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd a bod o fudd i ddiwydiannau ar draws yr economi. Tasg Ofcom yw sicrhau bod yr adnodd hollbwysig hwn yn cael ei ddefnyddio er budd pawb yn y DU.

Mae ein gwaith yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion i alluogi amrywiaeth eang o ddefnydd, o feicroffonau di-wifr a chamerâu ar gyfer cynyrchiadau teledu a theatr, i atebion radio busnes sy'n cynnig cysylltedd i fusnesau, i gysylltedd lloeren ar gyfer darparu gwasanaethau teledu lloeren, band eang a GPS. Mae mynediad at sbectrwm hefyd yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus amrywiol, o wasanaethau brys, yr heddlu a thân, i wasanaethau morol ac awyrennol, fel radar sy'n cefnogi meysydd awyr ledled y wlad.


Mae ein prif brosiectau sy'n ymwneud â sbectrwm - fel ein harwerthiant band 700 MHz/ 3.6-3.8GHz - hefyd yn hanfodol i gefnogi agweddau eraill ar waith Ofcom, yn enwedig yn y sectorau symudol a darlledu teledu a radio gan sicrhau bod defnyddwyr yn gallu parhau i elwa o'r gwasanaethau maen nhw'n eu gwerthfawrogi. O ystyried y galw sy'n esblygu'n gyflym am gysylltedd di-wifr ac felly am sbectrwm, rydym yn ceisio rhoi arloesedd wrth galon ein cefnogaeth i'r sectorau rydym yn gweithio gyda nhw, gan alluogi twf yn y sectorau presennol ac arloesedd sy'n deillio o ddefnydd newydd o dechnoleg ddi-wifr. Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Awdurdodi sbectrwm a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac yn cydymffurfio.** Rydym yn darparu cyngor a chymorth i ystod eang o ddefnyddwyr sbectrwm. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi'r dechnoleg yn fanwl a gwneud mesuriadau go iawn i wneud y gorau o'r ffordd y caiff sbectrwm ei ddefnyddio a'i rannu. Rydym yn ceisio gwella ein modelau a'n dull awdurdodi yn gyson er mwyn deall yn well y potensial i wahanol ddefnyddwyr rannu'r un sbectrwm, gan helpu i ateb y galw cynyddol gan ddefnyddwyr presennol a newydd. Rydym yn trwyddedu'r defnydd o sbectrwm ac yn monitro ar gyfer defnydd nad yw'n cydymffurfio. Rydym yn ymchwilio i adroddiadau am ymyriant radio niweidiol, gan ddatrys lle bo hynny'n bosibl a gorfodi lle bo angen. Rydym yn cadw golwg ar y farchnad i atal gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio.
- **Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm.** Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm mewn fformat agored, er mwyn iddi fod yn haws deall sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn dadansoddi'r defnydd o sbectrwm fel sail i bolisi.
- **Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.** Fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, rydym yn ystyried anghenion newidiol defnyddwyr presennol a'r galw am wasanaethau di-wifr arloesol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn sail i'n map sbectrwm a'n dulliau awdurdodi.

- **Galluogi arloesedd di-wifr ar draws amrywiaeth o sectorau diwydiant.** Rydym yn cefnogi trawsnewid digidol yn y diwydiant, o ddeall anghenion y sector ynni a'r sector trafnidiaeth, i alluogi defnyddio dronau ar gyfer logisteg. Rydym yn gweithio gyda gwahanol sectorau yn y diwydiant, er mwyn deall eu gofynion busnes a'r potensial ar gyfer cysylltedd di-wifr i ddiwallu eu hanghenion. Ein hamcan yw sicrhau bod gwahanol fusnesau a sefydliadau yn gallu cael gafael ar y sbectrwm sydd ei angen arnynt, lle a phryd mae ei angen arnynt.

# Cael cysylltiad i bawb

**Rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bwlch digidol y DU, gan wella mynediad at wasanaethau yn y lleoliadau anoddaf eu cyrraedd, i wneud yn siŵr bod pawb yn y DU yn cael y cysylltedd sydd ei angen arnynt.**




3.9 Mae cysylltedd yn bwysicach nag erioed. Mae'r mwyafrif helaeth o eiddo yn y DU nawr yn gallu cael gafael ar fand eang teilwng (cyflymder lawrlwytho o 10Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1Mbit yr eiliad). Bydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang, sy'n rhoi'r hawl gyfreithiol i ofyn am gysylltiad teilwng, yn helpu rhai o'r 190,000 o gartrefi sydd heb fynediad at fand eang teilwng ar hyn o bryd.[9] Fodd bynnag, efallai y bydd costau adeiladu uchel iawn yn y lleoliadau mwyaf anghysbell ar draws y DU yn golygu na fydd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang yn darparu ar eu cyfer, felly rydym yn ystyried sut gellir gwella mynediad at wasanaethau yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd.

3.10 Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer y 'Rhwydwaith Gwledig a Rennir' (SRN) sy'n cael ei adeiladu gan y pedwar cwmni rhwydwaith symudol (EE, O2, Three a Vodafone). Bydd y Rhwydwaith yn gwella darpariaeth symudol ledled y DU, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.[10] Byddwn yn adolygu cynnydd y gweithredwyr er mwyn cynnig tryloywder ynghylch sut maent yn cyflawni eu hymrwymiadau.

3.11 Mae cael pawb wedi cysylltu yn golygu mwy na dim ond y band eang rydym yn ei ddefnyddio gartref a'r gwasanaethau symudol sy'n cael eu defnyddio ledled y wlad. Mae hefyd yn cynnwys sut rydym yn cyfathrebu ac yn cysylltu â'n gilydd gan ddefnyddio gwasanaethau post. Mae'r gostyngiad yn nifer y llythyrau wedi cyflymu dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda'r niferoedd yn gostwng 3.9%, o 10.4 biliwn yn 2018/19 i 10 biliwn yn 2019/20. I'r gwrthwyneb, mae'r twf mewn masnach ar-lein wedi bod o fudd i nifer y

[9] Cysylltu'r Gwledydd Diweddariad yr Haf 2020
Ar yr amod bod cost cysylltiad yn llai na £3,400, caiff ei ddarparu heb gyfraniadau ychwanegol gan y cwsmer.
[10] https://www.gov.uk/guidance/building-digital-uk

parseli a gynyddodd 8% i 2.8 biliwn o eitemau yn 2019/20. Mae’r pandemig wedi cynyddu ymhellach y galw am ddanfon parseli, gyda’r Post Brenhinol yn adrodd cynnydd o 31% yn nifer y parseli yn ystod chwe mis cyntaf 2020/21 a llawer o weithredwyr parseli yn cynyddu capasiti yn eu rhwydweithiau.[11] Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio’n addasu i newidiadau yn y farchnad bost a bod cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol yn cael ei sicrhau.

3.12 Ein blaenoriaethau allweddol yn 2021/22 i hyrwyddo’r nodau hyn fydd:

- **Gwasanaeth band eang cyffredinol.** Cafodd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang ei lansio y llynedd. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae’n cael ei chyflawni gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM) ac yn ystyried unrhyw hawliadau cyllido ar gyfer y cysylltiadau sydd wedi cael eu hadeiladu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ceisio deall sut mae anghenion cysylltedd pobl wedi esblygu a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol.
- **Mynd i’r afael â’r cartrefi sydd ar ôl heb fand eang teilwng.** Byddwn yn ystyried sut gellid gwella mynediad at wasanaethau band eang yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, gan ganolbwyntio ar eu lleoliad a sut gallai technolegau gwahanol ddarparu gwasanaethau gwell am gost is.
- **Darpariaeth symudol.** Byddwn yn parhau i adrodd ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud i wella darpariaeth o dan raglen y Rhwydwaith Gwledig a Rennir.
- **Symud ymlaen â’n hadolygiad o ddyfodol rheoleiddio post.** Yn ystod 2019/20 fe ddechreuom weithio ar ddyfodol rheoleiddio post. Mae’r gwaith hwn yn cynnwys adolygiad o gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol, effeithlonrwydd rhwydwaith y Post Brenhinol, effeithiolrwydd cystadleuaeth yn y farchnad llythyrau a pharseli, a’r graddau y mae cwsmeriaid yn elwa o fesurau diogelu digonol yn y farchnad.

3.13 Byddwn hefyd yn parhau â’n gwaith ar wasanaethau sy’n bwysig o hyd i lawer o gwsmeriaid.

- **Symud i linellau digidol.** Wrth i fwy a mwy o alwadau llais gael eu cludo drwy fand eang, byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i gefnogi’r broses o symud o linellau analog i linellau digidol. Drwy gydol y broses hon byddwn yn gweithio i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu a bod gan ddarparwyr atebion cadarn i bryderon defnyddwyr.
- **Dyfodol rhwydweithiau 2G/3G.** Byddwn yn parhau i weithio gyda’r diwydiant a’r Llywodraeth i sicrhau cydgysylltu priodol i ddiogelu cwsmeriaid a lleihau unrhyw darfu yn ystod y broses o ddiffodd 2G/3G.
- **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod rhifau ffôn rydym yn eu dyrannu i ddarparwyr teleffoni yn cael eu defnyddio’n effeithlon.
- **Gwasanaethau cyffredinol blaenorol.** Byddwn yn parhau â’n hadolygiad o rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol blaenorol, gan gynnwys blychau ffôn

[11] Adolygiad o anghenion defnyddwyr gwasanaethau post: adroddiad 2020 (ofcom.org.uk)

cyhoeddus, biliau manwl a llyfrau ffôn wedi'u hargraffu, gyda'r bwriad o gyhoeddi datganiad yn y gaeaf.


- **Ansawdd gwasanaethau post.** Byddwn yn parhau i graffu ar ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol fel rhan o'n rhaglen fonitro barhaus. Byddwn yn canolbwyntio ar adfer lefelau gwasanaeth ar ôl effeithiau'r pandemig.

3.14 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â llywodraethau, a chyrff eraill ledled y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol sy'n ymwneud â rhwydweithiau sefydlog a symudol.

## Tegwch i Gwsmeriaid

**Rydym ni am i bob cwsmer cyfathrebiadau yn y DU gael ei drin yn deg, gyda phobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus, newid yn hawdd a chael bargen deg ar gyfer eu gwasanaethau band eang, ffôn a theledu.**

3.15 Mae tegwch i gwsmeriaid gwasanaethau cyfathrebiadau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Mae'n hollbwysig bod pobl a busnesau yn cael eu trin yn deg gan eu darparwyr ac yn gallu ymddiried mewn marchnadoedd i weithredu'n onest.




3.16 Rydym ni wedi cymryd camau i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg, ac rydym yn parhau i herio cwmnïau i wneud mwy. Mae darparwyr mwyaf y DU ar gyfer band eang, ffonau symudol, teledu-drwy-dalu a ffonau cartref wedi cytuno i gyflawni ymrwymiadau newydd Ofcom ar gyfer Tegwch i Gwsmeriaid.[12] Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw cwmnïau cyfathrebiadau i'r DU, ac mae ei effeithiau hirdymor yn debygol o greu ansicrwydd ariannol sylweddol i lawer o fusnesau, teuluoedd ac unigolion. Rydym yn ymwybodol o'r angen parhaus am wasanaethau fforddiadwy, yn enwedig ar gyfer y rheini mewn amgylchiadau bregus, a phwysigrwydd bod cwmnïau ffôn, band eang a theledu drwy dalu yn trin eu cwsmeriaid agored i niwed yn deg.[13]

---

[12] Cwmnïau mwyaf Prydain ar gyfer band eang a ffonau yn rhoi tegwch yn gyntaf - Ofcom
[13] https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/media/media-releases/2020/vulnerable-customers-must-be-treated-fairly

3.17 Dros y flwyddyn nesaf, bydd ein blaenoriaethau allweddol yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Fforddiadwyedd.** Byddwn yn parhau i fonitro lle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig o ran band eang. Byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau, er enghraifft tariffau cymdeithasol, i gefnogi defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ariannol.
- **Proses newid symlach.** Byddwn yn cwblhau ein cynigion i gyflwyno proses newydd ar gyfer newid symlach i bob cwsmer band eang ni waeth pa rwydwaith neu dechnoleg maent yn newid iddo neu ohono. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ar weithredu'r broses hon.
- **Helpu defnyddwyr i gael bargeinion gwell.** Byddwn yn adolygu pa mor effeithiol yw hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariff gorau o ran helpu cwsmeriaid i ymgysylltu a chael bargeinion gwell. Byddwn yn dal darparwyr symudol a band eang i gyfrif i gyflawni'r ymrwymiadau prisio gwirfoddol maent wedi'u gwneud ac yn adolygu eu heffaith fel rhan o'n pecyn o fesurau i sicrhau tegwch i gwsmeriaid.
- **Gwneud i ddata weithio i ddefnyddwyr.** Byddwn yn ystyried sut mae bwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer Cyfathrebu Agored, a fydd yn galluogi pobl i rannu eu data'n ddiogel â thrydydd partïon er mwyn eu helpu i lywio drwy'r farchnad a chael bargen well. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu deddfwriaeth i alluogi mentrau data clyfar ar draws sectorau.


3.18 Yn ogystal â'r gwaith penodol y byddwn yn ei wneud eleni, mae gennym hefyd raglenni parhaus sy'n cefnogi ein gwaith yn y maes hwn.

- **Sicrhau bod llais y defnyddiwr yn cael ei glywed.** Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein polisïau a'n gweithredoedd yn seiliedig ar wybodaeth a data gan ddefnyddwyr. Byddwn yn cael yr wybodaeth hon drwy waith ein tîm cyswllt defnyddwyr a thrwy amrywiaeth eang o sefydliadau fel grwpiau defnyddwyr.
- **Cymharu ansawdd gwasanaeth.** Byddwn yn adrodd ar lefel gymharol y gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer darparwyr yn y sector telegyfathrebiadau a byddwn hefyd yn adrodd yn chwarterol ar y cwynion a fydd yn dod i law am wahanol ddarparwyr.
- **Cefnogi defnyddwyr yn y marchnadoedd cyfathrebiadau.** Byddwn yn monitro'r cynlluniau y byddwn yn eu cymeradwyo neu'n eu goruchwylio, fel cyrff amgen i ddatrys anghydfodau, iawndal awtomatig a'r cod ymarfer ar gyflymderau band eang.
- **Cyfranogiad a bregusrwydd**. Byddwn yn cefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus, gan gynnwys gweithio gyda'r diwydiant i wella cysondeb cofnodi data a monitro'r gefnogaeth sydd gan ddarparwyr ar waith.
- **Galwadau niwsans a sgamiau.** Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith gyda darparwyr cyfathrebiadau i atal a tharfu ar alwadau niwsans a sgamiau. Byddwn hefyd yn edrych ar gamau pellach y gallwn ni a darparwyr cyfathrebiadau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â galwadau a negeseuon testun sgam. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cyrff buddiannau defnyddwyr a rheoleiddwyr rhyngwladol, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau.

# Cefnogi a datblygu darlledu'r DU

**Byddwn yn cefnogi sector darlledu iach a bywiog sy'n gwasanaethu holl gynulleidfaoedd y DU. Byddwn yn cyflawni hyn drwy helpu cyfryngau'r DU i esblygu i ddiwallu anghenion newidiol gwylwyr a gwrandawyr.**

3.19 Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd darlledu yn y DU a chynnwys sy'n cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd ac sy'n adlewyrchu bywydau yn y DU. Fodd bynnag, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi arwain at ansicrwydd ariannol sylweddol i'r diwydiant teledu a radio, ac fe wynebodd llawer o ddarlledwyr ostyngiad mewn refeniw hysbysebu. Fe wnaethom gyhoeddi gwybodaeth i ddarlledwyr drwy gydol y flwyddyn, gan roi'r canllawiau diweddaraf iddynt am ein dull rheoleiddio. Byddwn yn parhau i weithio gyda darlledwyr i ddeall unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu oherwydd y pandemig, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i gyflawni ein rôl reoleiddio mewn modd pragmatig a hyblyg.




3.20 Mae amgylchiadau eithriadol y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio ar ein harferion o ran y cyfryngau ac wedi cyflymu'r twf mewn gwylio fideos ar-lein. Roedd nifer y bobl a oedd yn defnyddio gwasanaethau fideo-ar-alw drwy danysgrifio (SVoD), fel Netflix a Disney+ wedi cynyddu o 53% o aelwydydd yn Ch1 2020 i 60% yn Ch3 2020. Er bod y rhan fwyaf o lefelau gwylio'r DU yn dal ar deledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl demograffeg, gyda phobl 16 i 34 oed yn treulio llai na chwarter eu hamser gwylio fideos ar deledu byw.[14] Cynyddodd lefelau gwylio teledu a ddarlledir yn gyffredinol yn ystod cyfnod clo cyntaf y DU, gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Ebrill 2020 gydag ychydig dros dair awr a hanner y pen ar gyfartaledd – y lefelau gwylio uchaf ym mis Ebrill a welwyd

[14] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/media-nations-reports/media-nations-2020

yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r newidiadau hyn mewn ymddygiad gwylwyr, ynghyd â thechnoleg newydd a marchnadoedd sy'n newid yn gyflym, yn gefndir i'n gwaith.

3.21 Byddwn yn parhau i gefnogi sector darlledu bywiog y DU i sicrhau manteision i holl gynulleidfaoedd y DU ac mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.** Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[15] yn ganolog i sector cyfryngau'r DU. Maent yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a materion cyfoes ac yn cynhyrchu ystod eang o gynnwys gwreiddiol yn y DU. Rydym yn adolygu dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan ystyried newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd a marchnadoedd sy'n datblygu'n gyflym. Mae ein hadolygiad 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' yn adeiladu ar ein hasesiad o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod 2014-2018, drwy ystyried beth mae cynulleidfaoedd am ei gael gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus dros y pump i ddeng mlynedd nesaf, a sut gellid ei gyflawni a'i gynnal.[16] Rydym wedi ymgysylltu'n eang, gan gynnwys drwy raglen ymchwil cynulleidfaoedd ac ymgynghoriad yn dilyn ein cynhadledd ym mis Hydref 2020. Byddwn yn cyhoeddi ein hargymhellion i'r Llywodraeth yr haf hwn.
- **Amrywiaeth ym maes darlledu:** Mae mwy o amrywiaeth mewn teledu a radio yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Rydym yn disgwyl i ddarlledwyr roi sylw i feysydd hollbwysig o dangynrychiolaeth, yn enwedig mewn swyddi uwch lle mae prinder parhaus o bobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.[17] Rydym am i ddarlledwyr gael gwell dealltwriaeth o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol a daearyddol ac rydym yn disgwyl i'r rheini sydd mewn rolau arweinyddiaeth fod yn atebol am sicrhau newid go iawn. Byddwn yn cefnogi'r ymdrechion hyn drwy barhau i fonitro ac ymgysylltu'n eang.
- **Rheolau perchnogaeth cyfryngau.** Mae'n rhaid i ni adolygu'r rheolau ar gyfer perchnogaeth cyfryngau ar gyfer y teledu, radio a phapurau newydd bob tair blynedd, ac adrodd ein canfyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rheolau'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau ac maent yn rhan bwysig o sut mae ein democratiaeth yn gweithio. Yn yr adolygiad hwn byddwn yn ystyried y newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd yn y dirwedd cyfryngau, y chwaraewyr newydd yn y farchnad a'r ffyrdd rydym nawr yn cael ac yn ymgysylltu â chynnwys newyddion.

3.22 Byddwn hefyd yn parhau i adrodd ar berfformiad y BBC yn flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, a'i fod yn bodloni'r gofynion sydd wedi'u nodi yn nhrwydded weithredu a fframwaith gweithredu'r BBC. Pan fo'n briodol, byddwn hefyd yn cynnal asesiadau cystadleuaeth ar gynlluniau'r BBC i ddatblygu ei wasanaethau. Mae prosiectau penodol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

---

[15] BBC, ITV ac STV, Channel 4, Channel 5 ac S4C.
[16] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/192103/sgrin-fach-trafodaeth-fawr-adolygiad-pum-mlynedd.pdf
[17] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/208242/2019-20-amrywiaeth-a-chyfle-cyfartal-mewn-teledu-a-radio.pdf

- **Parhau â'n hadolygiad o'r rhyngweithio rhwng BBC Studios a Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC.** Rydym yn adolygu esblygiad is-gwmni masnachol y BBC sef BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion masnachu a gwahanu. Cyhoeddir adroddiadau ar y canfyddiadau yn yr haf.
- **Cychwyn ein hadolygiad cyfnodol cyntaf o'r BBC, cyn adolygiad canol tymor y Llywodraeth o Siarter y BBC.** Mae'n ofynnol i ni gynnal o leiaf ddau adolygiad cyfnodol yn ystod cyfnod y siarter, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r cyntaf mewn da bryd i lywio adolygiad canol tymor y Llywodraeth. Rhaid i ni asesu i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'i ddibenion cyhoeddus. Byddwn yn nodi themâu a materion ar gyfer rheoleiddio'r BBC yn y dyfodol a byddwn yn pwyso a mesur yr heriau strategol yn y dyfodol.
- Ystyried sut dylai trwydded weithredu'r BBC esblygu i adlewyrchu disgwyliadau ac arferion cynulleidfaoedd sy'n newid mewn byd digidol. Mae trwydded weithredu gyfredol y BBC yn cynnwys amrywiaeth o ofynion ar draws ei wasanaethau cyhoeddus, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau llinol, darlledu fel BBC One neu Radio 1. Wrth i gynulleidfaoedd wylio a gwrando fwyfwy ar gynnwys ar-lein, drwy BBC iPlayer neu wasanaethau ffrydio eraill, byddwn yn ystyried sut dylai'r drwydded weithredu esblygu i adlewyrchu hyn.

3.23 Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith parhaus i sicrhau ansawdd a safonau cynnwys i gynulleidfaoedd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- **Gosod a gorfodi safonau cynnwys.** Ofcom yw'r rheoleiddiwr ôl-ddarlledu ar gyfer safonau cynnwys ar sianelau darlledu teledu a radio, gan ddiogelu defnyddwyr rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol ac yn dramgwyddus, tra'n rhoi ystyriaeth lawn i ryddid mynegiant. Mae ein rheolau ar gyfer sianeli teledu a radio wedi'u nodi yn y Cod Darlledu.[18] Ni hefyd yw'r rheoleiddiwr cynnwys ar gyfer gwasanaethau fideo ar-alw yn y DU. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hollbwysig eleni, yn enwedig o ran helpu i ddiogelu cynulleidfaoedd rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol am y pandemig. Byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi cadarn yn erbyn gwasanaethau sy'n darlledu anogaeth i droseddu ac iaith casineb. Rydym yn gwneud yn siŵr bod sianeli teledu'r BBC, gorsafoedd radio a BBC iPlayer yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu. Mae gennym hefyd rôl oruchwylio mewn perthynas â chynnwys gwefannau'r BBC.[19] Rydym yn ystyried cwynion sy'n ymwneud â'r BBC fel rhan o'r broses 'BBC yn gyntaf' lle gellir cyflwyno cwyn i Ofcom os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'i ddatrysiad gan y BBC.
- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi, rheoli a chynnal trwyddedau ar gyfer yr holl wasanaethau teledu a radio masnachol lleol a chenedlaethol.
- **Monitro sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cael eu hariannu'n fasnachol, yn cyflawni eu cylch gwaith.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r ffordd y

[18] https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

[19] Yn wahanol i'n rôl yn rheoleiddio safonau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar-alw, nid oes gan Ofcom bwerau gorfodi ar gyfer deunydd ar-lein y BBC. Yn hytrach ein rôl ni yw ystyried a rhoi barn ynghylch a wnaeth y BBC lynu at y canllawiau golygyddol perthnasol yn ei ddeunydd ar-lein (e.e. erthyglau testun ar-lein).

mae Corfforaeth Channel 4 yn cyflawni ei chynlluniau a'i dyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei datganiad polisi cynnwys cyfryngau. Byddwn hefyd yn dechrau'r broses ail-drwyddedu ar gyfer Channel 3 a Channel 5, gan gynnwys adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn mis Mehefin 2022. Bydd y gwaith o adnewyddu trwydded Channel 4 yn mynd rhagddo ochr yn ochr â hyn.

- **Hygyrchedd cynnwys i bobl anabl.** Byddwn yn parhau i fonitro hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni darlledu ac ar-alw i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Byddwn yn gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad darlledu ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno gofynion hygyrchedd newydd ar gyfer gwasanaethau ar-alw.
- **Trwyddedu sbectrwm ar gyfer gwasanaethau darlledu.** Byddwn yn darparu rhagor o welliannau i ddarpariaeth DAB ar raddfa fach, radio masnachol a chymunedol analog, trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig, a thrwyddedau newydd ar gyfer amlblecsau Teledu Daearol Digidol (DTT) presennol (yn amodol ar ymgynghoriad a deddfwriaeth y Llywodraeth).

# Paratoi i reoleiddio niweidiau ar-lein

**Mewn byd sy'n fwyfwy digidol lle mae mwy a mwy o agweddau ar ein bywyd yn dibynnu ar y rhyngrwyd, rydym am i bobl yn y DU allu mynd ar-lein yn ddiogel ac i lwyfannau ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ddiogelu defnyddwyr y rhyngrwyd.**



Dim ond **19%** o oedolion gwnaeth adrodd eu pryderon i unrhyw wefan/ap o gymharu â, **29%** o blant 12-15 oed.

3.24 Mae pobl yn treulio mwy a mwy o amser ar-lein ac yn defnyddio gwasanaethau ar-lein at ystod ehangach o ddibenion. Gwelwyd cynnydd o 17 munud yn yr amser a dreulir ar-lein ar gyfartaledd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn 2019, gydag oedolion yn y DU yn treulio tair awr a hanner ar-lein arnynt bob dydd. Mae'r pandemig wedi cyflymu'r duedd hon, gan ysgogi oedolion i dreulio mwy na phedair awr ar-lein bob dydd. Mae gwasanaethau ar-lein yn dod yn ffynonellau newyddion sy'n dod yn fwyfwy pwysig, gyda bron i hanner yr oedolion ar-lein yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel ffynhonnell newyddion yn 2019 a 78% o oedolion ar-lein yn defnyddio gwasanaethau'r BBC ar gyfer newyddion yn benodol am y coronafeirws ym mis Mawrth 2020.[20] Cafodd pwysigrwydd bod ar-lein yn ystod y cyfnod hwn ei ddangos ymhellach gan y twf mewn safleoedd addysg, iechyd a'r llywodraeth wrth i'r wlad gyflwyno cyfnod clo.

3.25 Er bod gwasanaethau ar-lein yn dod â llawer o fanteision, mae pobl hefyd yn parhau i fynegi lefelau uchel o bryder ynghylch mynd ar-lein. Mae 81% o bobl ifanc 12 i 15 oed a 62% o oedolion yn dweud eu bod wedi cael profiad a allai fod yn niweidiol ar-lein yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda phobl ifanc 12 i 15 oed yn fwy tebygol nag oedolion o ddweud eu bod wedi profi niwed posibl ar-lein.[21]

3.26 Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi dyletswyddau newydd i Ofcom fel rheoleiddiwr llwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi'u sefydlu yn y DU drwy drosi'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ar draws Ewrop. Mae VSP yn fath o wasanaeth fideo

[20] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/news-media/coronavirus-news-consumption-attitudes-behaviour
[21] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/internet-and-on-demand-research/online-nation

ar-lein lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu ag aelodau o'r cyhoedd, fel YouTube a TikTok. Ni fydd Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio pob VSP gan mai dim ond i wasanaethau a sefydlwyd yn y DU y mae ein dyletswyddau'n berthnasol. Dan y rheoliadau newydd, a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020, rhaid i'r VSPs gael mesurau priodol ar waith i ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol, a phob defnyddiwr rhag cynnwys troseddol a chynnwys sy'n cymell casineb a thrais. Hefyd bydd angen i VSPs sicrhau eu bod yn cyrraedd rhai safonau penodol o ran hysbysebion.

- **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Ar 10 Mawrth 2021, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau ar gwmpas ac awdurdodaeth er mwyn helpu darparwyr i hunanasesu a oes angen iddynt roi gwybod i Ofcom fel VSP o dan y rheolau statudol o fis Ebrill 2021 ymlaen. Rydym hefyd wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ganllawiau drafft ar gyfer darparwyr VSP ar y mesurau y dylent eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol. Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar gynigion ar gyfer perthynas gyd-reoleiddio â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar gyfer hysbysebu VSPs. Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiynau terfynol o'r canllawiau yn ddiweddarach eleni.

3.27 Ar ben hynny, roedd ymateb llawn Llywodraeth y DU i'r Papur Gwyn ar Niwed Ar-lein yn nodi ei bwriad i Ofcom fod yn gyfrifol am reoleiddio niwed ar-lein. Rydym yn croesawu'r rôl bwysig hon ac yn rhannu uchelgais y Llywodraeth i wella diogelwch ar-lein a dal llwyfannau i gyfrif. Wrth i ddeddfwriaeth ddrafft gael ei chyflwyno i'r Senedd Brydeinig er mwyn iddi graffu arni, byddwn yn parhau i ddarparu cyngor arbenigol a thechnegol i gefnogi'r broses ddeddfwriaethol. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn nodi rhagor o syniadau ynghylch sut byddem yn cyflawni ein cyfrifoldebau newydd arfaethedig yng nghyswllt diogelwch ar-lein pe bai'r Senedd Brydeinig yn pasio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

3.28 Rydym yn cydnabod bod ein rôl o ran diogelwch ar-lein yn debygol o fod yn wahanol i rai o'r systemau rydym eisoes yn eu gweithredu, gan ganolbwyntio ar ddal llwyfannau ar-lein i gyfrif am eu systemau a'u prosesau, yn hytrach na dyfarnu ar ddarnau unigol o gynnwys. Fodd bynnag, drwy ein dyletswyddau presennol, rydym wedi datblygu enw da iawn mewn nifer o feysydd sy'n berthnasol i'r drefn diogelwch ar-lein. Mae hyn yn cynnwys diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed ar yr un pryd â chynnal rhyddid mynegiant ac ystyried pwysigrwydd arloesi technolegol.

3.29 Bydd ein gwaith yn rheoleiddio VSPs yn darparu sylfaen ar gyfer adeiladu ein sgiliau a'n harbenigedd presennol, cyn i'r cyfreithiau diogelwch ar-lein ehangach ddod i rym. Bydd Ofcom yn defnyddio dull cymesur o weithredu'r drefn ar gyfer VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU a bydd yn cefnogi gwasanaethau sy'n symud i'r drefn diogelwch ar-lein ehangach pan fydd ar waith.

3.30 O ystyried ein dyletswyddau ar-lein newydd, rydym wedi ymrwymo i wella ein dealltwriaeth o'r ecosystem ar-lein ehangach a rhannu ein gwybodaeth â defnyddwyr, y diwydiant a llywodraethau. Trafodir ein buddsoddiad yn y maes hwn isod o dan 'Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol' ochr yn ochr â'n thema 'Datblygu partneriaethau cryf'.

3.31 Dros y 12 mis nesaf bydd ein gwaith paratoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein newydd arfaethedig yn canolbwyntio ar bum maes:

- **Cefnogi'r broses ddeddfwriaethol.** Byddwn yn rhoi mewnbwn technegol a chyngor rheoleiddio arbenigol i Lywodraeth a Senedd y DU er mwyn helpu i ddarparu fframwaith statudol ymarferol ac effeithiol ar gyfer diogelwch ar-lein.
- **Datblygu ein dull rheoleiddio.** Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymchwil a dadansoddi i ganfod ac asesu opsiynau ar gyfer gweithredu ein cyfrifoldebau newydd arfaethedig, gan adeiladu ar ein profiadau cynnar o'r drefn VSP newydd. Bydd hyn hefyd yn sail i'n mewnbwn i'r broses ddeddfwriaethol. Byddwn yn profi elfennau allweddol o'n dull gweithredu gyda sefydliadau sydd â diddordeb ac yn archwilio cyfleoedd i feithrin partneriaethau, gan gydnabod y bydd ein dull rheoleiddio yn cael ei lywio gan ganlyniadau'r broses ddeddfwriaethol, a'n hymgyngoriadau ffurfiol ein hunain maes o law.
- **Meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n rôl arfaethedig yn y dyfodol.** Byddwn yn cyfleu ein dull gweithredu ar gyfer datblygu'r drefn diogelwch ar-lein yn ystod y broses ddeddfwriaethol, gan ymgysylltu'n helaeth â seneddwyr, y diwydiant, cymdeithas sifil, cyrff arbenigol a chynrychioladol a'r cyhoedd.
- **Sefydlu ein gweithrediadau.** Byddwn yn hyfforddi ac yn recriwtio staff sy'n meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein dyletswyddau VSP newydd ac yn gwneud yn siŵr bod gennym y capasiti a'r arbenigedd sydd eu hangen i baratoi ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein arfaethedig a'i chyflawni. Byddwn yn datblygu strwythurau rheoli adnoddau, cyfathrebiadau a llywodraethu mewnol i oruchwylio'r ehangu hwn. Byddwn yn parhau i asesu goblygiadau ein rôl arfaethedig fel rheoleiddiwr niwed ar-lein o ran adnoddau a chost.
- **Buddsoddi mewn technoleg, data a gwybodaeth a gallu'r sector.** Byddwn yn cynyddu ein rhaglen ymchwil i ymddygiad a phrofiadau defnyddwyr y rhyngrwyd, deinameg a chymhellion llwyfannau ar-lein, a'r adnoddau a'r technolegau a all effeithio ar ddiogelwch defnyddwyr y rhyngrwyd. Byddwn yn datblygu ein seilwaith rheoli ffisegol a gwybodaeth, ein strategaeth technoleg ar-lein a'n map technoleg gwybodaeth a data.

3.32 Byddwn yn parhau i weithio i wella ein dealltwriaeth o niwed ar-lein drwy amrywiaeth o waith:

- **Ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Mae gwella llythrennedd yn y cyfryngau yn ganolog i gefnogi defnyddwyr ar-lein ac mae'n un o bileri allweddol y drefn diogelwch ar-lein a'r VSPs. Mae'r rhaglen hon yn rhoi gwybodaeth am anghenion, ymddygiad ac agweddau pobl ar-lein, gan ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ynghylch sut mae gwella llythrennedd pobl yn y cyfryngau.
- **Cynyddu ein cydweithrediad â rheoleiddwyr eraill.** Fel y trafodwyd o dan y thema 'Datblygu partneriaethau cryf', rydym yn gwneud newid sylweddol yn ein gwaith ar y cyd drwy'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddwyr Digidol ac yn cryfhau ein cydweithrediad â rheoleiddwyr ledled y byd sydd hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â niwed ar-lein.

- **Ymchwilio i niwed ar-lein.** Byddwn yn edrych ar y potensial i ddefnyddio technegau ymchwilio meintiol presennol a newydd i asesu pa mor gyffredin yw niwed ar-lein a'r ffynonellau, yn ogystal ag effeithiolrwydd y mesurau a gymerir i ddiogelu defnyddwyr. Rydym yn archwilio amrywiaeth o offer dadansoddi, gan gynnwys dadansoddi data a gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau ar-lein, yn ogystal ag ymchwilio i ddefnyddwyr (yn cynnwys gwybodaeth am ymddygiad). Bydd ein mentrau ymchwil eraill ar dechnolegau a marchnadoedd ar-lein yn gwella ein dealltwriaeth ymhellach o sut mae modd lliniaru niwed ar-lein.
- **Modelau busnes ar-lein.** Bydd deall modelau busnes ar-lein, deinameg gystadleuol a sut maen nhw'n rhyngweithio â niwed ar-lein yn allweddol i reoleiddio ar-lein yn y dyfodol yn ogystal â'n gwaith ar reoleiddio VSP. Yn dilyn y cyngor gan y Tasglu Marchnadoedd Digidol dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth wrth iddi ystyried trefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol a sefydlu Uned Marchnadoedd Digidol o fewn yr Awdurdod.

## Bod yn sail i waith ehangach ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

Mae ein rhaglen o waith polisi yn seiliedig ar nifer o raglenni penodol a gweithgareddau pwysig.

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Mae ein holl waith yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn ymchwilio i farchnadoedd cyfathrebiadau a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr er mwyn darparu dealltwriaeth drwyadl a chyfredol o bobl a busnesau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym wedi mabwysiadu dulliau ymchwil newydd, arloesol drwy ein panel VSP a'n rhaglen gwybodaeth am ymddygiad. Rydym yn cyfuno'r gwaith ymchwil hwn â data a gasglwyd yn uniongyrchol gan y diwydiant a, thrwy gyhoeddiadau ac adroddiadau rhyngweithiol, rydym yn sicrhau bod ein safbwyntiau yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. Mae hyn yn cynnwys ein tri phrif gyhoeddiad: Cysylltu'r Gwledydd, Cyfryngau'r Genedl ac Ein Gwlad Ar-lein.
- **Y Gofrestrfa Gwybodaeth.** Sefydlwyd y Gofrestrfa Gwybodaeth ym mis Mehefin 2020, ac mae'n cefnogi ein gweithgareddau casglu gwybodaeth hanfodol drwy gydlynu ceisiadau ffurfiol am wybodaeth a gweithio gyda rhanddeiliaid i egluro amseriad ein ceisiadau arfaethedig. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Gofrestrfa Gwybodaeth er mwyn gwreiddio a gwella ffyrdd o weithio sy'n sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd gwirioneddol a phendant i'n harferion casglu gwybodaeth, gan leihau'r baich ar gwmnïau rydym am gael gwybodaeth ganddynt lle bo'n bosibl.
- **Gorfodi.** Lle bo'n briodol, byddwn yn defnyddio ein pwerau i fynd ar drywydd achosion gorfodi sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo ein hamcanion ac sy'n helpu i feithrin diwylliant cadarn o gydymffurfio ar draws ein holl sectorau gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag arferion niweidiol.
- **Arloesi.** Rydym am feithrin amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu, yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac o fewn Ofcom. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn datblygu dealltwriaeth ddofn o arloesedd yn ein sectorau ac yn hwyluso mwy o arloesedd yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio a thu hwnt. Er enghraifft, mewn partneriaeth â Digital Catapult, byddwn yn lansio Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN (SONIC) lle bydd cyflenwyr presennol a newydd offer rhwydwaith agored yn gallu profi a dangos gallu i ryngweithredu cyn integreiddio â rhwydweithiau gweithredwyr. Byddwn hefyd yn sefydlu canolfan ymddygiad i ddod ag arbenigwyr o bob rhan o Ofcom at ei gilydd i wella ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn gwneud penderfyniadau.
- **Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.** Byddwn yn parhau i ddadansoddi cynaliadwyedd ein diwydiannau, gan gynnwys sut maent yn effeithio ar yr amgylchedd, sut gall technolegau helpu sectorau eraill i leihau eu hôl troed carbon, a pha gamau a allai helpu i gyflawni targed carbon sero net y DU yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried pa rôl y gallai Ofcom ei chwarae o ran mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd yn y sectorau cyfathrebiadau ac yn rhannu ein canfyddiadau.
- **Papurau economaidd a thechnoleg.** Y llynedd, fe wnaethom lansio cyfres o bapurau trafod economeg.[22] Pwrpas y gyfres yw annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio'r cyfryngau a chyfathrebiadau a chreu tystiolaeth gadarn i gefnogi ein penderfyniadau. Rydym hefyd yn cyhoeddi papurau sy'n edrych ar y prif faterion a thueddiadau ym maes technoleg, fel ein papur diweddar ar Ddyfodol Technoleg. [23]Nod y papurau hyn yw cyfrannu'n sylweddol at ein gwybodaeth a sbarduno trafodaeth ehangach ar y themâu dan sylw. Byddwn yn cyhoeddi mwy o'r papurau hyn yn ystod y flwyddyn nesaf ar bynciau sydd o bwys strategol i Ofcom.

- **Gwerthuso effaith ein gwaith.** Mae deall effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr yn agwedd bwysig ar wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ar ran pobl yn y DU. Byddwn yn asesu effaith ein gwaith a, thrwy ein rhaglen o werthuso ex-post, byddwn yn cyhoeddi adolygiad manwl o'n polisi rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol.

3.33 Yn ogystal â'r gwaith sy'n ymwneud â'r pum thema a nodir uchod, byddwn hefyd yn cymryd camau i wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni ein dyletswyddau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddisgrifio isod.

[22] Papurau trafod economeg - Ofcom
[23] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/211115/report-emerging-technologies.pdf

# Cryfhau Ofcom ar gyfer y dyfodol

**Byddwn yn cryfhau ein sgiliau ac yn datblygu arferion gweithio arloesol i fod y sefydliad mwyaf effeithiol ac effeithlon y gallwn fod. Byddwn yn datblygu ein cynrychiolaeth ar draws y DU ac yn sicrhau bod gennym weithlu amrywiol sy'n gwasanaethu pawb yn y DU.**

3.34 Gyda defnydd cynyddol o wasanaethau ar-lein, mae Ofcom yn wynebu goblygiadau technoleg a gwasanaethau newydd ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â chylch gwaith cynyddol o ran diogelwch telegyfathrebiadau a diogelwch ar-lein. Er mwyn ateb yr heriau hyn, bydd angen i Ofcom ddatblygu fel sefydliad.

3.35 Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi datblygu ein harbenigedd mewn meysydd fel dadansoddi data a thechnoleg ddigidol. Gyda'n cyfrifoldebau newydd, byddwn yn gwneud buddsoddiadau newydd sylweddol i ddatblygu ein sgiliau a'n galluoedd yn y meysydd hyn ac mewn technolegau newydd, marchnadoedd digidol, a gyrwyr masnachol llwyfannau ar-lein. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu pobl a safbwyntiau o bob rhan o'r DU.

- **Rhoi newid sylweddol ar waith o ran ein sgiliau a'n galluoedd mewn marchnadoedd digidol, technolegau ar-lein a newydd a dadansoddi data.** Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cynyddu ein sgiliau a'n galluoedd digidol yn sylweddol, gan ganolbwyntio ar recriwtio arbenigwyr technoleg a data allanol, gan ddechrau drwy recriwtio Prif Swyddog Technoleg newydd. Byddwn yn cyflwyno rhaglen fwy o secondiadau a phartneriaethau, rhaglenni hyfforddi ar gyfer proffesiynau data a thechnoleg yn ogystal ag adnoddau a llwyfannau newydd.
- **Cryfhau ein dealltwriaeth o flaenoriaethau masnachol a chymhellion y busnesau a'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio nawr ac yn y dyfodol.** Wrth i'n sectorau dyfu a datblygu, byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth fasnachol ddofn o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn canolbwyntio ar y galluoedd hyn drwy recriwtio cydweithwyr sydd â phrofiad masnachol, gan ddefnyddio mwy o secondiadau, a buddsoddi'n sylweddol yn ein rhaglen ymchwil defnyddwyr a masnachol.
- **Canolfan Gogledd Lloegr.** Eleni byddwn yn agor canolfan newydd ym Manceinion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelwch ar-lein, y sector technoleg a diogelwch y rhwydwaith. Byddwn hefyd yn awyddus i gynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast i sicrhau ein bod yn gallu denu doniau gorau'r DU a'n bod yn cynrychioli pob rhan o'r DU.
- **Bydd ein rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant yn sbarduno meddwl mwy arloesol, creadigol ac ystwyth.** Byddwn yn fwyaf effeithiol wrth weithio er budd pobl ledled y

DU os yw gweithlu Ofcom yn cynrychioli holl wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU. Fel sefydliad, mae'n hanfodol bod gennym amrywiaeth eang o gefndiroedd a phrofiadau, sy'n adlewyrchu cefndiroedd a phrofiadau pobl ledled y DU. Ym mis Gorffennaf, byddwn yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein targedau amrywiaeth ar gyfer 2015-2020 yn ein hadroddiad a'n cyfrifon blynyddol, ac yn rhannu'r camau cychwynnol rydym wedi'u cymryd tuag at gyflawni ein targedau newydd ar gyfer 2021-2026 a'n cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

# Datblygu partneriaethau newydd

**Wrth i'n cylch gwaith ddatblygu, byddwn yn cyfnewid gwybodaeth a dealltwriaeth drwy gydweithio ag amrywiaeth eang o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl yn y DU.**

3.36 Byddwn yn parhau i feithrin cysylltiadau â rheoleiddwyr, busnesau, cyrff arbenigol a llywodraethau yn y DU a ledled y byd er mwyn i ni allu parhau i ddysgu a chyfnewid arferion gorau. Drwy'r partneriaethau a'r cysylltiadau hyn, byddwn yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'n sectorau a'r ffyrdd y gallwn wasanaethu pobl yn y DU.

3.37 Rydym yn cefnogi awydd Llywodraeth y DU am waith rheoleiddio effeithiol parhaus, wedi'i ddarparu drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid domestig, yn Ewrop ac yn rhyngwladol. Yn y DU, bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o waith:

- **Ymgysylltu â'n partneriaid llythrennedd yn y cyfryngau.** Gan weithio gyda'n rhwydwaith a'n panel cynghori Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, byddwn yn ceisio deall profiadau defnyddwyr, rhannu arferion gorau a gwerthuso gweithgareddau llythrennedd yn y cyfryngau.
- **Newid sylweddol mewn gweithio ar y cyd â rheoleiddwyr digidol eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF).** Ffurfiodd Ofcom, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y Fforwm ym mis Gorffennaf 2020 i sicrhau mwy o gydweithio, o ystyried heriau unigryw rheoleiddio llwyfannau ar-lein. Ar 10 Mawrth cyhoeddodd y Fforwm ei gynllun gwaith ar gyfer 2021/22, gan nodi map ar gyfer sut byddwn yn cynyddu cwmpas a graddfa ein cydweithrediad yn sylweddol. [24] O 1 Ebrill ymlaen, bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn ymuno â'r Fforwm fel aelod llawn.
- **Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).** Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y DU i fynd i'r afael â heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau ac i rannu arferion gorau fel aelod o'r Rhwydwaith hwn. Byddwn yn parhau i gyfrannu at waith polisi ar y cyd â'r Rhwydwaith i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.
- **Fframwaith diogelwch telegyfathrebiadau.** Byddwn yn parhau â'n perthynas waith agos â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ym maes diogelwch rhwydwaith.
- **Prawf SONIC.** Byddwn yn gweithio gyda Digital Catapult i sefydlu prawf SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN) i brofi a hwyluso rhyngweithredu agored rhwng rhwydweithiau'r DU, fel cam tuag at arallgyfeirio

---

[24] https://www.gov.uk/government/publications/digital-regulation-cooperation-forum-workplan-202122/digital-regulation-cooperation-forum-plan-of-work-for-2021-to-2022#the-2021-22-drcf-workplan

cadwyni cyflenwi offer yn unol â Strategaeth Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi 5G y Llywodraeth.

3.38 Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ein cysylltiadau rhyngwladol ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein gwaith parhaus yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Technolegau sy'n dod i'r amlwg a thechnolegau sy'n tarfu.** Drwy weithio gyda thechnolegwyr yn y byd academaidd a diwydiant yn rhyngwladol, byddwn yn parhau i adeiladu ar ein dealltwriaeth o effaith arloesi technolegol yn ein sectorau mewn meysydd fel deallusrwydd artiffisial, cyfathrebiadau cwantwm, pensaernïaeth cyfrifiadura newydd a deunyddiau newydd.
- **Cyfnewid profiadau ynghylch rheoleiddio ar-lein.** Byddwn yn parhau i archwilio partneriaethau posibl yn rhyngwladol, ac i gyfnewid profiadau ac arferion gorau gyda rheoleiddwyr eraill (yn cynnwys y rheini o Awstralia ac Iwerddon) sy'n ystyried heriau rheoleiddio ar-lein, sy'n ymwneud yn benodol â chynnwys niweidiol.

3.39 Drwy gydol proses gadael yr UE, rydym wedi rhoi cyngor technegol annibynnol i'r Llywodraeth yng nghyswllt y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor tebyg i'r Llywodraeth i gefnogi ei thrafodaethau ar berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol, a'i gwaith ar gysylltiadau masnach eraill.

# 4. Cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr ledled y DU

4.1 Prif ddyletswydd Ofcom o ran cyflawni ei swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Mae'n bwysig ein bod yn mynegi'r canlyniadau i ddefnyddwyr y byddem yn hoffi eu cyflawni yn ein rhaglen waith. Mae gwneud hyn hefyd yn ein helpu i asesu pa mor dda rydym wedi cyflawni ein hamcanion, a beth arall gellir ei wneud.

## Mesurau canlyniadau defnyddwyr

4.2 Yn Adran 3 rydym yn nodi'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yn ein meysydd blaenoriaeth. Mae rhestr isod o'r mesurau dangosol a fydd yn ein helpu i asesu pa mor dda y mae ein gweithredoedd wedi cefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu dylunio i fod yn uchelgeisiol ac, mewn nifer o achosion, gallai gymryd nifer o flynyddoedd i'w cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; gallwn ystyried amryw o ffactorau eraill wrth asesu a ydym wedi cyflawni ein hamcanion.

4.3 Byddwn hefyd yn adrodd am ein perfformiad wrth gymharu â'r canlyniadau yn ein hadroddiad blynyddol, a byddwn yn cyhoeddi ystod eang o fesurau manylach ar y canlyniadau i ddefnyddwyr.

| Blaenoriaethau strategol | Y mesurau rydym eisiau eu gweld/monitro |
|---|---|
| **Buddsoddi mewn rhwydweithiau cryf a diogel** | • Cyflwyno 5G yn sylweddol a'r buddsoddiad mewn symudol sydd ei angen i gyflawni'r profiad mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl yn y tymor canolig i'r tymor hir.<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid<br>• Mwy o gartrefi gyda mwy nag un rhwydwaith ar gael sy'n gallu delio â gigabit<br>• Buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ffeibr llawn ac sy'n gallu delio â gigabit<br>Byddwn yn gwneud y canlynol:<br>• Canfod bylchau yn y safonau cadernid rhwydwaith ac mewn arferion gorau a chynnig atebion<br>• Monitro cydymffurfiaeth â'r fframwaith diogelwch telegyfathrebiadau |
| **Cael pawb wedi cysylltu** | • Gostyngiad yn nifer y cartrefi sy'n methu cael band eang 10Mbit yr eiliad<br>• Cynnydd yng nghyfran y DU sy'n cael darpariaeth symudol o safon gan bob cwmni rhwydwaith symudol<br>Byddwn yn monitro: |

| | |
|---|---|
| | • Cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol<br>• Ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol |
| **Tegwch i gwsmeriaid** | • Lefelau uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid o ran gwerth am arian<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd o ran ymdrin â chwynion<br>Byddwn yn monitro:<br>• Cyfran y cwsmeriaid y tu allan i gontract a faint maent yn ei dalu o gymharu â chwsmeriaid sydd mewn contract<br>• Cyfran y bobl sy'n ei chael hi'n anodd gallu fforddio gwasanaethau cyfathrebiadau |
| **Cefnogi a datblygu darlledu yn y Deyrnas Unedig** | • Buddsoddiad parhaus mewn cynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys buddsoddiad cenedlaethol a rhanbarthol<br>• Canfyddiadau uchel ymysg cynulleidfaoedd am ansawdd teledu<br>• Lefelau uchel o ran cyrhaeddiad a gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus<br>• Lefelau uchel o ddiogelu cynulleidfaoedd oherwydd safonau cynnwys<br>• Grwpiau amrywiol yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys yn well yn y diwydiant teledu a radio |
| **Paratoi i reoleiddio niwed ar-lein** | Byddwn yn monitro:<br>• Mesurau a weithredir gan VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU i ddiogelu defnyddwyr<br>• Lefelau ymwybyddiaeth defnyddwyr o offer ar-lein a'u defnydd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein |

## Ein gwaith ledled y DU

4.4 Mae Ofcom yn rheoleiddio ar gyfer y DU i gyd. Mae ein pwyllgorau cynghori cenedlaethol statudol yn ein cynghori ynghylch buddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw ym mhob un o bedair gwlad y DU mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau. Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i'n timau polisi ac maent yn gam pwysig yn ein proses o lunio polisïau. Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y DU hefyd yn cael eu cyflwyno ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o wledydd y DU. Mae gofyniad statudol i bob un o wledydd y DU fod â'i chynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, sy'n rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel.

4.5 Mae Ofcom bellach wedi ymrwymo i femoranda cyd-ddealltwriaeth (MoU) ffurfiol gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a llywodraethau a deddfwrfeydd yng Nghymru a'r Alban, ac mae'n ceisio gwneud yr un peth yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r memoranda hyn yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori ar ein

cynllun gwaith drafft ac maent yn nodi'r broses i weinidogion Cymru a'r Alban benodi aelodau i Fwrdd Ofcom, ymysg pethau eraill.

4.6 Rydym yn adolygu lleoliad ein staff er mwyn i ni, fel rheoleiddiwr, fod yn wirioneddol gynrychioliadol o'r DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi symud dros 100 o swyddi y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. Byddwn yn parhau â'r duedd hon yn y flwyddyn i ddod wrth i ni geisio cynyddu ein presenoldeb yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast ac agor ein canolfan newydd ym Manceinion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelwch ar-lein, y sector technoleg a diogelwch rhwydweithiau.

4.7 Penodwyd David Jones a Bob Downes i wasanaethu fel aelodau Bwrdd Ofcom dros Gymru a'r Alban, yn y drefn honno; mae Bob Downes hefyd yn gweithredu fel Aelod dros dro dros Ogledd Iwerddon. Mae'r aelodau hyn o'r bwrdd yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau a gwaith Ofcom, gan sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein nodau ar draws y DU.

## Heriau cyffredin

4.8 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost, sy'n diwallu anghenion pobl a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, yn achosi heriau penodol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u lleoli yn anghymesur yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a rhai o ranbarthau Lloegr. Dylai gwasanaethau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ddiwallu anghenion ac adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd ar draws holl ranbarthau a gwledydd y DU. Ar hyn o bryd rydym mewn cyfnod o newid a fydd yn effeithio ar holl wledydd y DU, gyda'r pandemig, datblygiadau ynghylch dyfodol rheoleiddio ar-lein a chyfnod parhaus o newid o ran perthynas y DU â'r UE a thu hwnt.

4.9 Yn 2021/22, fel yr amlinellir mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, byddwn yn cyhoeddi nifer o adroddiadau.

- Ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd a diweddariadau ar ddarpariaeth a chyflymderau band eang a symudol, gan gynnwys yr amrywiadau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o'r DU. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- Datganiad ar ein cynigion fel rhan o Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, ein pedwerydd adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n ystyried y gwahanol ieithoedd a thirweddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gwahanol - yn enwedig y rheini sy'n rhoi sylw i wledydd penodol y DU.
- Adroddiadau blynyddol ar y cyfryngau (Cyfryngau'r Genedl) ac ar y BBC, gan gynnwys asesu perfformiad y BBC yn erbyn ei drwydded weithredu. Mae pob un o'r adroddiadau hyn yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyflwyno i bob un o wledydd y DU.
- Byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn darlledu drwy gyhoeddi adroddiad ar y diwydiannau teledu a radio a monitro cynnydd darlledwyr o ran cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.

- Byddwn hefyd yn edrych ar sut gallwn ni helpu Llywodraeth y DU a Llywodraethau datganoledig i gyrraedd eu targedau allyriadau sero net perthnasol. Rydym wrthi'n gweithio i leihau ein hôl troed carbon ein hunain ers 2007, a byddwn yn parhau i ymchwilio i weld sut gallwn leihau ein hôl troed ymhellach, ar yr un pryd â herio'r diwydiant i chwarae ei ran hefyd.

## Yr Alban

4.10 Yn unol â'n rhwymedigaethau yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban yn ogystal â Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Alban wrth gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2021/22.

4.11 Byddwn yn rhoi cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol (lle bo'n briodol), er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei phrosiectau seilwaith telegyfathrebiadau allweddol - fel y rhaglen band eang cyflym iawn 'Reaching 100%' a rhaglen mewnlenwi symudol 4G Llywodraeth yr Alban. Mae hyn yn cynnwys gweithredu fel arsyllwr ar fforymau pwysig yn yr Alban, gan gynnwys Gweithgor y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (yr Alban) a Rhwydwaith Defnyddwyr yr Alban. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban ar agweddau ar ei rhaglen waith ehangach, gan gynnwys ei Chynllun ar gyfer Buddsoddi yn y Seilwaith, Strategaeth Ddigidol yr Alban ac ymrwymiad i allyriadau carbon sero net erbyn 2045.

4.12 Byddwn yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol fel y maent yn berthnasol i MG ALBA ac yn cydweithio i ddatblygu'r weledigaeth newydd ar gyfer y cyfryngau Gaeleg yn ei strategaeth 5 mlynedd, Lèirsinn 2026.

4.13 Byddwn hefyd yn cefnogi ein rhwydwaith rhanddeiliaid ehangach yn yr Alban, gan gynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â'r diwydiant, awdurdodau lleol, y Trydydd sector a'r sector dinesig ehangach yn yr Alban. Yn benodol, byddwn yn ymgysylltu â sector technoleg yr Alban i gefnogi rheoleiddio VSPs a'n cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer diogelwch ar-lein.

## Cymru

4.14 Yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Pwyllgorau ac Aelodau Senedd Cymru yn ogystal â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth gyflawni ein rhaglen waith ar gyfer 2021/22.

4.15 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cyngor technegol a rheoleiddiol yn ogystal â rhannu gwybodaeth fel sy'n briodol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r rhaglenni sydd ar gael i wella cysylltedd yng Nghymru a bwrw ymlaen â'n gwaith i gefnogi ein cyfrifoldebau arfaethedig yng nghyswllt rheoleiddio diogelwch ar-lein.

4.16 Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a fydd yn rhoi'r mwyaf o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith ac a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

## Gogledd Iwerddon

4.17 Byddwn yn ceisio cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Cynulliad Gogledd Iwerddon a DCMS, sy'n adlewyrchu'r cytundebau presennol yng Nghymru a'r Alban. Bydd hyn yn cynnwys penodi aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon.

4.18 Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddio a thechnegol i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol er mwyn cefnogi cyflwyno band eang ffeibr llawn drwy raglenni sy'n cael arian cyhoeddus, ac yn gweithio gyda'r diwydiant i hybu'r broses o gyflwyno ffeibr llawn masnachol ymhellach.

4.19 Byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau symudol ac awdurdodau lleol er mwyn i Ogledd Iwerddon elwa'n llawn o ddarparu gwasanaethau 5G a byddwn yn rhoi cyngor technegol i weithgor Rhwydwaith Gwledig a Rennir Gogledd Iwerddon a Chynllun Gweithredu Symudol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i helpu i sicrhau mwy o ddarpariaeth symudol ar draws Gogledd Iwerddon.

4.20 Wedi i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon - ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon ac yn cynnig cyngor i Lywodraeth y DU a chyrff defnyddwyr yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebiadau a buddiannau pobl yng Ngogledd Iwerddon.

## Lloegr

4.21 Mae ein gwaith llunio polisi yn ystyried pob cymuned yn Lloegr. Bydd rhai materion parhaus yn dal yn bwysig, o ddarpariaeth symudol a'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang i amrywiaeth darlledwyr ar y sgrin ac oddi arni. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth, ASau lleol ac awdurdodau lleol i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ar draws cymunedau yn Lloegr.

4.22 Fel y nodwyd uchod, eleni byddwn yn agor canolfan newydd ym Manceinion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelwch ar-lein, y sector technoleg a diogelwch rhwydwaith i sicrhau ein bod yn gallu denu doniau gorau'r DU a'n bod yn cynrychioli pob rhan o'r DU.

# Sicrhau gwerth am arian

## Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian


4.23 Ers Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2015 rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus ehangach. Ein nod yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon ar gyfer sector cyfathrebiadau sy'n symud yn gyflym.

4.24 Dros y cyfnod yma, ar sail debyg am debyg, mae ein cyllideb wedi aros yn wastad mewn termau enwol, ac mae wedi gostwng 8% mewn termau real, a chafodd ei haddasu ddim ond ar gyfer dyletswyddau ychwanegol yng nghyswllt y gwasanaeth cyffredinol band eang, seiberddiogelwch, y BBC a dyletswyddau VSP. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau gostyngiadau

cyllidebol cyfatebol tebyg am debyg mewn termau real, a bydd yn parhau i fod yn fwy effeithlon pan fo'n bosibl.

4.25 Dros y degawd diwethaf, mae cost rheoleiddio wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real. Mae'r siart isod yn dangos sut mae cyllideb Ofcom wedi newid o'i chymharu â gwariant misol cyfartalog cartrefi ar wasanaethau telegyfathrebiadau, teledu, radio a phost.

## Cap gwariant ar gyfer 2021/22




4.26 Mae Llywodraeth y DU yn gosod cap ar wariant cyllideb Ofcom. Rydym yn cynnig gosod cap gwariant o £131.9m gyda'r Adran dros dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r Trysorlys ar gyfer ein dyletswyddau presennol. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau pellach, gan gynnwys diogelwch ar-lein a diogelwch telegyfathrebiadau yn amodol ar drafodaethau parhaus. Caiff ein costau eu hadennill o'n gweithredwyr yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio a bydd y ffioedd sy'n ddyledus gan bob sector yn cael eu cyhoeddi gyda'r ddogfen hon yn ein tablau tariffau. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

## Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2021/22

4.27 Rydym yn parhau i adolygu sut rydym yn gweithio er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau statudol.

4.28 Mae ein hadnoddau a'n sgiliau'n cael eu hanelu at gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Rydym yn adolygu blaenoriaethau, capasiti a galw yn rheolaidd i wneud yn siŵr ein bod yn gallu bodloni ein hamcanion. Rydym hefyd yn cynyddu ein harbedion

effeithlonrwydd drwy ddefnyddio prosesau cystadleuol i sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr. Pan fydd angen buddsoddi, byddwn yn parhau i ddefnyddio rheolaeth ariannol dynn i sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

4.29 Mae gwella ein swyddfeydd a rhoi TGCh symudol i'n gweithlu wedi caniatáu amgylchedd gweithio mwy hyblyg ac ystwyth i'n gweithlu ac mae wedi lleihau ein hôl troed yn Llundain 39% gan arbed dros £3m y flwyddyn ers 2019/20. Roedd hyn yn caniatáu i ni symud yn gyflym i weithio o bell a gweithio hybrid fel oedd yn ofynnol o ganlyniad i'r pandemig.

# A1. Beth rydym yn ei wneud

A1.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n bodloni pawb. Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr. Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau.

A1.2 Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd Brydeinig ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig. Rydym ni'n darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol. Yn ôl Deddf Cyfathrebiadau 2003, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n llywio cyfeiriad ein gwaith

A1.4 Mae ein prif ddyletswyddau cyfreithiol wrth gyflawni ein gwaith yn cynnwys sicrhau:

- bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
- y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o safon yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu heb gyfiawnhad;
- bod y BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaeth â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a

- bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) rydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.6 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i wneud y canlynol:

- gorfodi'r gwaharddiadau ar gytundebau gwrth-gystadleuol a chamddefnyddio safle goruchafol, a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

A1.7 Byddwn yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Gwaith prosiect ar gyfer 2021/2022

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhoi gwybodaeth am fand eang gwibgyswllt /sy'n gallu delio â gigabit.** Mae angen yr wybodaeth iawn ar bobl a busnesau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y gwasanaethau band eang sydd orau iddyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant, y Llywodraeth a chyrff defnyddwyr i gyfleu manteision technolegau sy'n gallu delio â gigabit wrth iddynt ddod ar gael yn ehangach. | Parhaus |
| **Ymddeoliad copr.** Rydym yn parhau i gefnogi treial ymddeol copr Openreach yng Nghaersallog a gwaith parhaus i fonitro cynnydd y pontio rheoleiddiol rhwng gwasanaethau copr a ffeibr. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad pellach ar yr amgylchiadau lle gallai rhai adeiladau gael eu heithrio o'r diffiniad o gyfnewidfa gwibgyswllt wedi'i chwblhau, a fydd yn arwain at ddileu rhai gofynion ar Openreach. | Ymgynghoriad Ch3 2021/22 |
| **Rheoleiddio Telegyfathrebiadau yn Ardal Hull.** Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad terfynol ar ein canfyddiadau ac unrhyw atebion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog yn Ardal Hull yn Ch2 2021/22. Bydd hyn yn berthnasol i bob un o'r marchnadoedd llais cyfanwerthol/band eang a llinellau ar brydles. | Datganiad Ch2 2021/22 |
| **Strategaeth symudol.** Byddwn yn datblygu strategaeth ar gyfer ein hymagwedd at y sector symudol sy'n sail i'n gwaith rheoleiddio yn y dyfodol ac sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu cysylltedd ac arloesedd o safon i ddiwallu anghenion pobl yn y dyfodol. Byddwn yn edrych ar y newidiadau sy'n digwydd yn y sector, yn ogystal ag effaith newidiadau y tu allan iddo fel rôl gynyddol y cewri technoleg a'r potensial ar gyfer mwy o gydgyfeirio symudol, i asesu sut mae'r farchnad yn gweithio a sut mae'n debygol o esblygu dros y pump i ddeng mlynedd nesaf. Bydd dau brif gam i'r adolygiad. Bydd cam un yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth, a bydd yn cynnwys cyhoeddi dogfen drafod i wahodd barn rhanddeiliaid. Bydd yr ail gam yn adeiladu ar ymatebion rhanddeiliaid i ddod i gasgliadau cychwynnol ac yn nodi unrhyw gamau nesaf. | Ymgynghoriad Ch3 2021/22<br><br>Datganiad Ch1 2022/23 |
| **Diogelwch a chadernid rhwydweithiau.** Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth i roi canlyniadau'r adolygiad o'r gadwyn gyflenwi telegyfathrebiadau ar waith, gan gyhoeddi canllawiau, yn cynnwys a105 sy'n ymwneud â chadernid, i'r diwydiant a sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau'n glynu at eu rhwymedigaethau diogelwch ac yn dilyn y canllawiau perthnasol. Ar ben hynny, byddwn yn darparu cymorth a chyngor technegol i Strategaeth Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi 5G y Llywodraeth. Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod darparwyr cyfathrebiadau a gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch ac yn ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST). Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau, o ran cadernid rhwydweithiau a pharhau â'r rhaglen o fonitro dyluniadau cydnerth yn rhagweithiol wrth ddefnyddio rhwydweithiau presennol. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau.** Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod 2021/22 ynghylch dyfarnu amleddau yn y band 26 GHz. | Ymgynghoriad Ch3 2021/22 |
| **Trwyddedu lleol.** Byddwn yn ceisio gweithredu dull awdurdodi cwbl awtomataidd ar gyfer mynediad i'r bandiau a rennir ac i ddarparu llwyfan ar gyfer mynediad mwy effeithlon i fwy o sbectrwm mewn lleoliadau penodol yn y dyfodol. Byddwn yn diweddaru ein fframwaith ar gyfer cronfa ddata Gofod Gwyn Teledu. | Parhaus |
| **Ffioedd trwydded blynyddol (ALF) ar gyfer bandiau sy'n cyrraedd diwedd y tymor cychwynnol.** Bydd trwyddedau sy'n cwmpasu 1900 a 2100 MHz yn cyrraedd diwedd y cyfnod cychwynnol a gwmpaswyd gan yr arwerthiant yn 2000 ac felly byddwn yn pennu'r ffioedd trwydded blynyddol yn y dyfodol a fydd yn berthnasol o fis Ionawr 2022 ymlaen. Byddwn hefyd yn gosod ffioedd ar gyfer 412-414 MHz wedi'u paru â 420-422 MHz pan fydd y drwydded yn cyrraedd diwedd y cyfnod cychwynnol o fis Hydref ymlaen. | Ymgynghoriad Ch1 2021/22 |
| **Esblygiad llwyfannau trwyddedu (LPE).** Bydd hyn yn darparu proses ar-lein well i'n cwsmeriaid a bydd yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaeth trwyddedu sbectrwm effeithlon i'r dyfodol. Ar ôl gwneud y gwaith dylunio a pharatoi cychwynnol, rydym yn disgwyl dechrau symud i'r system newydd hon gan ddechrau gyda'n trwyddedau symlach, ond y nifer uchaf, yn ystod y cyfnod hwn. | Parhaus |
| **Meysydd electromagnetig (EMF) ac Iechyd.** Ar ôl i ail ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn rhoi gofyniad ar waith i gydymffurfio â'r cyfyngiadau sylfaenol ar gyfer diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol yn seiliedig ar Ganllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP) ar gyfer awdurdodi sbectrwm dros 10 Watt o Bŵer Pelydru Isotropig Effeithiol (EIRP) (fel amrywio trwyddedau a diweddaru rheoliadau eithrio yn ôl yr angen). Byddwn yn parhau â'n rhaglen o fesuriadau sy'n agos at orsafoedd ffonau symudol, gan ganolbwyntio'n barhaus ar 5G, a gwella'r mesuriadau hyn yn ôl yr angen, gan roi trefn gwirio cydymffurfiaeth ar waith ar draws bandiau a gwasanaethau priodol. | Parhaus |
| **Galluogi'r galw cynyddol am ddefnyddio dronau.** Byddwn yn edrych ar ddewisiadau sbectrwm ac awdurdodi i gefnogi'r galw cynyddol am ddefnyddio dronau y tu hwnt i linellau gweld y gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o gymwysiadau fel danfon cyflenwadau meddygol a monitro systemau traffig. Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) i wneud yn siŵr bod gennym fframwaith rheoleiddio cydgysylltiedig. | Parhaus |
| **Gweithio gyda'r diwydiant ar ddi-wifr a sbectrwm.** Byddwn yn datblygu ein gwaith i godi ymwybyddiaeth o ddi-wifr a sbectrwm wrth gyflawni trawsnewid digidol ar draws sectorau gwahanol yn y diwydiant. Byddwn yn parhau i ymgysylltu er mwyn rheoli anghenion gwasanaethau arloesol sy'n galw am gyfathrebu di-wifr er mwyn bodloni eu gofynion. | Parhaus |
| **Strategaeth rheoli sbectrwm.** Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar gasgliadau ein hadolygiad o'r strategaeth rheoli sbectrwm, yr ymgynghorwyd arno ym mis Rhagfyr 2020, a fydd yn nodi sut rydym yn bwriadu rheoli sbectrwm dros y deng mlynedd nesaf. | Datganiad Ch2 2021/22 |

| | |
|---|---|
| **Map sbectrwm.** Byddwn yn datblygu map sbectrwm strategol sy'n adlewyrchu datblygiadau yn y farchnad, mewn technoleg ac yn rhyngwladol, er mwyn gallu arloesi a sicrhau mynediad at sbectrwm pryd a lle bynnag fydd ei angen, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau symudol a 5G. Bydd y gwaith hwn hefyd yn sail i'n safbwynt rhyngwladol wrth baratoi ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC) 2023. | Ymgynghoriad Ch3 2021/22<br><br>cyhoeddi Ch4 2021/22 |
| **Niwtraliaeth y rhyngrwyd.** Mae fframwaith niwtraliaeth y rhyngrwyd yn mynnu bod darparwyr yn trin holl draffig y rhyngrwyd ar eu rhwydweithiau yn gyfartal, heb ffafrio rhai gwefannau neu wasanaethau. Byddwn yn edrych ar y fframwaith i sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yn y ffordd orau. Yn benodol, byddwn yn edrych ar gefnogi arloesedd i sicrhau gwell canlyniadau i fusnesau a defnyddwyr, gan ystyried sut mae rhwydweithiau a gwasanaethau wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. | Parhaus |
| **Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad.** Rydym yn cynnal rhaglen waith i sefydlu sut dylem adrodd ar argaeledd ac ansawdd darpariaeth symudol er mwyn cyflwyno darlun cyson ar draws 4G a 5G. Fel rhan o hyn, byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda'r diwydiant gyda'r nod o wella cywirdeb a chyffredinrwydd gwybodaeth am y ddarpariaeth dan do y mae Ofcom a'r diwydiant yn ei darparu. | Adroddiad Ch3 2021/22 |
| **Darpariaeth symudol.** Byddwn yn parhau i adrodd ar y cynnydd a wnaed i wella darpariaeth o dan y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir, yn ogystal â gwerthuso'r model darpariaeth unigol y mae gweithredwyr rhwydwaith symudol i fod i'w ddatblygu fel rhan o'r rhaglen hon, a gwneud gwaith i wirio cywirdeb rhagfynegiadau darpariaeth gweithredwyr. | Parhaus |
| **Gwasanaeth band eang cyffredinol.** Lansiwyd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang y llynedd a byddwn yn parhau i fonitro sut mae'n cael ei chyflawni gan y darparwyr dynodedig (BT a KCOM) a bydd hefyd angen ystyried unrhyw hawliadau cyllido ar gyfer y cysylltiadau sydd wedi cael eu creu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ceisio deall sut mae anghenion cysylltedd pobl wedi esblygu a byddwn yn gwneud hynny yn y dyfodol. | Ymgynghoriad Ch3 2021/22 |
| **Mynd i'r afael â'r cartrefi sydd ar ôl heb fand eang teilwng.** Byddwn yn ystyried sut gellid gwella mynediad at wasanaethau band eang yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, gan ganolbwyntio ar leoliad yr adeiladau hyn a sut gallai technolegau gwahanol ddarparu gwasanaethau gwell am gost is. | Parhaus |
| **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd.** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN) yn y dyfodol, yn cael eu canfod ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Adolygiad o wasanaethau etifeddol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad o rwymedigaethau'r gwasanaeth cyffredinol blaenorol, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus, biliau manwl a llyfrau ffôn wedi'u hargraffu. | Datganiad<br>Ch4 2021/22 |
| **Mesur perfformiad band eang mewn cartrefi.** Byddwn yn cyhoeddi data ar y perfformiad sy'n cael ei ddarparu gan wahanol wasanaethau a sut maent yn amrywio. Byddwn yn edrych ar nifer o ffactorau gan gynnwys technoleg, darparwr gwasanaeth, pecyn, daearyddiaeth ac adeg o'r dydd. | Adroddiad<br>Ch3 2021/22 |
| **Diffodd 2G/3G.** Byddwn yn parhau â'n gwaith yn edrych ar effeithiau diffodd 2G/3G ar yr holl bartïon yr effeithir arnynt. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr symudol er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn cael eu canfod ac yn cael sylw, gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a lleihau'r amhariad. | Parhaus |
| **Gwella darpariaeth symudol dan do.** Byddwn yn gwella'r rheoliadau sy'n rheoli dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol er mwyn caniatáu mwy o ddefnydd ar yr un pryd â diogelu'r rhwydweithiau symudol rhag ymyriant o offer anghyfreithlon. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2021/22<br><br>Datganiad<br>Ch3 2021/22 |
| **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro'r sector post fel rhan o'n dyletswydd statudol i sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ddiwedd 2021. | Adroddiad<br>Ch3 2021/22 |
| **Adolygu'r fframwaith rheoleiddio post ar gyfer y dyfodol.** Yn ystod 2020, dechreuom weithio i asesu beth ddylai'r fframwaith rheoleiddio priodol fod ar gyfer rheoleiddio'r sector post, yng ngoleuni newidiadau i'r farchnad, yn enwedig dibyniaeth gynyddol cwsmeriaid ar ddanfon parseli a'r gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau. Ein bwriad yw sefydlu trefn newydd yn ystod 2022. | Ymgynghoriad<br>Ch3 2021/22 |
| **Gweithredu mesurau newydd i warchod defnyddwyr.** Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom gynnig pecyn o fesurau i ddiogelu cwsmeriaid a helpu i sicrhau eu bod yn cael bargen deg. Mae'r mesurau hyn yn gweithredu'r mesurau newydd i ddiogelu cwsmeriaid yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC). Byddwn yn gweithio gyda darparwyr yn ystod y cyfnod gweithredu. | Parhaus |
| **Gwerthuso ein polisi rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol.** Byddwn yn parhau i asesu effaith ein gwaith fel rhan o'n rhaglen waith yn 2021/22 a thrwy ein rhaglen o werthuso ex-post rydym yn bwriadu cyhoeddi adolygiad manwl o'n polisi rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol. | Adroddiad<br>Ch1 2021/22 |
| **Adolygiad o bolisi rhifau yn y dyfodol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae pobl yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. Yn benodol, byddwn yn ystyried dyfodol codau ardal, rhifau 084/087 ac yn bwrw ymlaen â'n rhaglen i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn prisiau galwadau i rifau 07 a'r defnydd ohonynt. | Datganiad<br>Ch4 2021/22 |

| | |
|---|---|
| **Dilysu rhifau.** Byddwn yn ymgymryd â rhaglen waith i ennyn mwy o ymddiriedaeth mewn rhifau adnabod y galwr ac yn helpu i fynd i'r afael â galwadau niwsans a sgam. | Adroddiad Ch2 2021/22 |
| **Fforddiadwyedd gwasanaethau band eang.** Byddwn yn parhau i fonitro lle mae aelwydydd yn cael trafferth talu am wasanaethau cyfathrebiadau, yn enwedig o ran band eang. Byddwn yn ystyried a oes angen unrhyw fesurau i gefnogi defnyddwyr sy'n agored i niwed yn ariannol, ac yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried yr achos dros y rhain lle bo hynny'n briodol. | Adroddiad Ch1 2021/22 |
| **Helpu defnyddwyr i gael bargeinion gwell.** Ers mis Chwefror 2020, mae cwmnïau band eang, symudol, llinell dir a theledu drwy dalu wedi gorfod dweud wrth gwsmeriaid pan fydd eu contractau'n dod i ben, a dangos iddynt y bargeinion gorau sydd ar gael. Bydd cwsmeriaid sydd â'u contractau wedi dod i ben hefyd yn cael neges i'w hatgoffa ac yn cael gweld y bargeinion gorau bob blwyddyn. Byddwn yn adolygu sut mae darparwyr wedi gweithredu'r hysbysiadau hyn a'u heffaith ar ymddygiad cwsmeriaid ac rydym yn disgwyl i hyn barhau i'r flwyddyn berfformiad nesaf. Byddwn hefyd yn adolygu effaith yr ymrwymiadau gwirfoddol a wneir gan nifer o ddarparwyr symudol a band eang fel rhan o'n pecyn o fesurau i sicrhau tegwch i gwsmeriaid. | Adroddiad Ch2 2021/22 |
| **Cyfranogiad a bregusrwydd.** Rydym yn gweithio i gefnogi anghenion a buddiannau'r rheini sy'n anabl, yn oedrannus, ar incwm isel neu'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r rheini y mae'n ymddangos bod eu hamgylchiadau'n golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at waith polisi ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |
| **Cyfathrebu Agored.** Byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ganfyddiadau ein hymgynghoriad ar Gyfathrebu Agored, a fyddai'n galluogi pobl i rannu eu data'n ddiogel â thrydydd partïon er mwyn eu helpu i lywio drwy'r farchnad a chael bargen well. Byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu deddfwriaeth i alluogi mentrau data clyfar ar draws sectorau. | Cyhoeddi Ch1 2021/22 |
| **Proses newid symlach.** Byddwn yn dod i gasgliad ar ein cynigion i gyflwyno proses newid symlach newydd ar gyfer pob cwsmer, pwy bynnag yw eu darparwr band eang. Mae hyn p'un a ydynt yn symud ar draws rhwydweithiau sefydlog gwahanol (er enghraifft, rhwng Virgin Media a darparwr sy'n defnyddio rhwydwaith Openreach) neu rhwng darparwyr sy'n defnyddio'r un rhwydwaith sefydlog, ond yn cysylltu cwsmeriaid gan ddefnyddio technolegau gwahanol. | Datganiad ar Newid Symlach ac Ymgynghoriad ar newidiadau i'r Amodau Cyffredinol Ch1 2021/22<br><br>Datganiad ar y newidiadau i'r Amodau Cyffredinol Ch2 2021/22 |
| **Mynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau.** Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith gyda darparwyr cyfathrebiadau i atal a tharfu ar alwadau niwsans a sgamiau. Bydd ein gwaith hefyd yn edrych ar gamau pellach y gall Ofcom a darparwyr cyfathrebiadau eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â galwadau a negeseuon testun sgam. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cyrff | Parhaus |

| | |
|---|---|
| buddiannau defnyddwyr a rheoleiddwyr rhyngwladol, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau. | |
| **Adrodd ar batrymau prisio.** Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr yn ei dalu, ar gyfartaledd. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau gyda 'disgownt' yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau 'rhestr', yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn contract a phrisiau y tu allan i gontract. | Adroddiad<br>Ch2 2021/22 |
| **Cymharu ansawdd gwasanaeth.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol gan edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid preswyl gan ddarparwyr telegyfathrebiadau sefydlog a symudol. | Adroddiad<br>Ch1 2021/22 |
| **Polisi a rheoleiddio hysbysebion.** Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar gyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod sydd â llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch; disgwylir datganiad maes o law. Os bydd cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno, byddai'n rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu hyn. | Parhaus |
| **Rhaglen darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.** Byddwn yn ystyried rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, ac effaith barhaus y pandemig, drwy hwyluso rhaglen waith 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' gyda'r diwydiant, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, y Senedd Brydeinig, gwylwyr a gwrandawyr. | Datganiad<br>Ch2 2021/22 |
| **Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu.** Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth yn niwydiannau teledu a radio'r DU er mwyn rhoi darlun o ba mor dda y mae darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yn hybu cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau. | Adroddiad<br>Ch3 2021/22 |
| **Adolygiad o BBC Studios.** Rydym yn adolygu esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion masnachu a gwahanu. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad yn Ch1 21/22. | Adroddiad ar Ganfyddiadau<br>Ch1 2021/22 |
| **Asesu'r gystadleuaeth ar BBC Three.** Mae'r BBC wedi cyhoeddi cynnig i ddod â BBC Three yn ôl fel sianel deledu linol. Gan fod hwn yn wasanaeth cyhoeddus newydd, o dan delerau Siarter a Chytundeb y BBC, mae'n rhaid i'r BBC gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y cynnig, ac yn dilyn hwn bydd ymgynghoriad asesu cychwynnol ac yna Asesiad Cystadleuaeth (BCA) gan Ofcom. Bydd ein hasesiad BCA yn ystyried a yw'r gwerth cyhoeddus a nodir yn y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar wasanaethau cystadleuwyr. | Ymgynghoriad<br>Ch1/Ch2 2021/22*<br><br>Ymgynghoriad<br>Ch3 2021/22<br><br>Datganiad<br>Ch3/4 2021/22 |

| | |
|---|---|
| **noder: mae'r amseru'n ddibynnol ar Brawf Budd y Cyhoedd y BBC* | |
| **Monitro gweithgareddau masnachol y BBC.** Mae'n rhaid i weithgareddau masnachol y BBC wneud elw masnachol dros gyfnod priodol er mwyn sicrhau na fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau masnachol sy'n gwneud colled. Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar berfformiad ariannol a chyfraddau elw pob un o'i is-gwmnïau masnachol a phob llinell busnes yn ei is-gwmnïau masnachol. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth y BBC â'n gofynion o ran gwahanu gweithredol a phrisiau trosglwyddo. | Parhaus |
| **Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiaeth y BBC â'r gofynion penodol yn ei fframwaith gweithredu a'i drwydded weithredu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad hefyd sy'n mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus. | Adroddiad<br>Ch3 2021/22 |
| **Adolygu Trwydded Weithredu'r BBC.** Byddwn yn ystyried sut rydym yn rheoleiddio perfformiad y BBC drwy ein hadolygiad o Drwydded Weithredu'r BBC | Cais am Fewnbwn<br>Ch2 2021/22<br><br>Ymgynghoriad<br>Ch4 2021/22 |
| **Adolygiad Cyfnodol o'r BBC.** Mae'n rhaid i ni gynnal adolygiad cyfnodol o'r BBC mewn da bryd i lywio adolygiad canol tymor y Llywodraeth o'r Siarter. Rhaid i'r adolygiad ystyried i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo pob un o'r Dibenion Cyhoeddus, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu bryderon penodol a nodwyd gan Ofcom. Rydym hefyd yn disgwyl myfyrio ar heriau strategol yn y dyfodol | Parhaus |
| **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod rhywun yn craffu'n briodol ar unrhyw newidiadau sylweddol o safbwynt rheoleiddio. | Parhaus |
| **Adolygu'r rheolau perchenogaeth cyfryngau.** Mae'n rhaid i ni adolygu'r rheolau ar gyfer perchnogaeth cyfryngau ar gyfer y teledu, radio a phapurau newydd bob tair blynedd, ac adrodd ein canfyddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r rheolau'n gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau ac maent yn rhan bwysig o sut mae ein democratiaeth yn gweithio. Yn yr adolygiad hwn byddwn yn ystyried y newidiadau sylweddol sydd wedi digwydd yn y dirwedd cyfryngau, y chwaraewyr newydd yn y farchnad a'r ffyrdd rydym nawr yn cael ac yn ymgysylltu â chynnwys newyddion. | Ymgynghoriad<br>Ch1 2021/22 |
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4.** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut bydd Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad. | Adroddiad<br>Ch2 2021/22 |

| | |
|---|---|
| **Cod hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS).** Rydym yn disgwyl i'r Llywodraeth gyflwyno rheoliadau sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn sicrhau eu bod ar gael i bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw. Byddwn wedyn yn ymgynghori ar god ac yn ei gyhoeddi, gan roi canllawiau ar fodloni'r gofynion. Mae'r gofynion yn debygol o gynnwys darparu is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion ochr yn ochr â rhaglenni. | Ymgynghoriad Ch1 2021/22<br><br>Datganiad Ch2 2021/22 |
| **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020 (AVMSR) yn cyflwyno gofynion i lwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi eu sefydlu yn y DU gymryd camau priodol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, a diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol rhag cynnwys sydd â deunydd anghyfreithlon a deunydd sy'n cymell casineb neu drais. Hefyd bydd angen i VSPs sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau penodol o ran hysbysebion. Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 1 Tachwedd 2020. Rydym yn datblygu ac yn ymgynghori'n gyhoeddus ar ganllawiau rheoleiddio ar gyfer VSPs, a fydd yn cael eu cwblhau'n derfynol yn ddiweddarach eleni. | Datganiad Ch2 2021/22 |
| **Paratoi i reoleiddio niwed ar-lein.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer niwed ar-lein ac rydym yn paratoi ar gyfer y rôl newydd arfaethedig hon. Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn nodi rhagor o syniadau ynghylch sut rydym yn gweld y drefn diogelwch ar-lein yn gweithio'n ymarferol. Bydd ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau a'n gwaith yn rheoleiddio VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU yn rhoi sylfaen cyn cyflwyno'r cyfreithiau ehangach hyn ar ddiogelwch ar-lein. | Cyhoeddi Ch1 2021/22 |
| **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i helpu i wella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar-lein oedolion a phlant yn y DU drwy ddarparu ymchwil, datblygu polisi ynghylch rôl llythrennedd yn y cyfryngau mewn rheoleiddio ar-lein, a llywio arferion gorau drwy gydweithio â sefydliadau a diwydiant perthnasol i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth. | Cyhoeddi Ch1 2021/22<br><br>Cyhoeddi Ch3 2021/22 |
| **Marchnadoedd ar-lein.** Yn dilyn ein gwaith agos gyda'r Tasglu Marchnadoedd Digidol dan arweiniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth wrth iddi ystyried cyngor y tasglu ar drefn o blaid cystadleuaeth ar gyfer marchnadoedd digidol a gweithio i sefydlu uned marchnadoedd digidol yn yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. | Parhaus |
| **Trawsnewid gallu Ofcom mewn peirianneg, gwyddoniaeth a dadansoddi data.** Byddwn yn parhau i gyfrannu at fentrau gwyddoniaeth a pheirianneg data, ac yn cefnogi cydweithwyr o gwmpas y sefydliad er mwyn cael yr wybodaeth a'r effeithlonrwydd gorau o weithgareddau sy'n ymwneud â data. Yn ogystal â defnyddio prosesau ac offer arloesol i gefnogi polisi a darparu gweithredol, byddwn yn adolygu technolegau a methodolegau sy'n dod i'r amlwg i wneud yn siŵr ein bod yn parhau ar flaen y gad o ran dealltwriaeth yn y maes cymhleth hwn. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o'r technolegau sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ar-lein.** Rydym yn datblygu gallu Ofcom mewn technolegau ar-lein i gefnogi perthnasedd cynyddol y rhain i'n rôl yn rheoleiddio VSPs ac, yn y dyfodol, o ran niwed ar-lein a chymylu rhwydweithiau telegyfathrebiadau a darlledu. Rydym wedi creu fframwaith rheoli gwybodaeth newydd i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn, wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil allanol i ddatblygu ein gwybodaeth am y meysydd technoleg allweddol ac wedi meithrin cysylltiadau â'r diwydiant Technoleg Diogelwch newydd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi cyfres o bapurau trafod sy'n edrych ar oblygiadau posibl technolegau allweddol. | Parhaus |
| **Datblygu dealltwriaeth Ofcom o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n tarfu a'r rôl maen nhw'n ei chwarae o ran darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr a busnesau.** Rydym yn ceisio deall, drwy weithio gyda thechnolegwyr yn y byd academaidd a diwydiant yn rhyngwladol, effaith bosibl arloesedd technolegol ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys esblygiad technolegau hysbys a thechnolegau newydd radical. Mae'r rhain yn cynnwys technolegau fel deallusrwydd artiffisial (AI), cyfathrebiadau cwantwm, pensaernïaeth cyfrifiadura newydd a deunyddiau newydd. | Parhaus |
| **Parhau i arloesi o ran data a rheoleiddio i helpu pobl a busnesau.** Drwy ein rhaglen technoleg newydd, a gwaith sy'n edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth ddofn o arloesedd yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac yn ystyried y goblygiadau i'n gwaith. Byddwn yn parhau â'n rhaglen i wneud yn siŵr bod cydweithwyr yn meddu ar y sgiliau, yr hyfforddiant a'r offer i gael gwybodaeth o setiau data cynyddol gymhleth, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau polisi a gweithredol. Byddwn yn nodi prosiectau lle gallwn dreialu dulliau a thechnegau creadigol ac arloesol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr heriau o gyflawni gwaith yn gyflym lle bo angen a hwyluso meddwl creadigol wrth weithio o bell neu mewn swyddfa hybrid a gweithio o bell. | Parhaus |
| **Cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.** Byddwn yn parhau â'n gwaith ar ddadansoddi cynaliadwyedd ein diwydiannau, gan gynnwys sut maent yn effeithio ar yr amgylchedd a sut mae'r amgylchedd yn effeithio arnyn nhw, sut gall technolegau helpu sectorau eraill i leihau eu hôl troed carbon, a pha gamau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd a tharged carbon sero net y DU yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried hefyd pa rôl y gallai Ofcom ei chwarae o ran mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd yn y sectorau cyfathrebiadau. | Adroddiad Ch3 2021/22 |
| **Adroddiad amrywiaeth blynyddol.** Yn Ch2 2021, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar amrywiaeth, sy'n edrych ar amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb yn Ofcom. Mae'n edrych ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn gyffredinol ac mewn meysydd fel cyflogau, recriwtio, perfformio a dyrchafiadau. Bydd yr adroddiad yn egluro ein rhyw, ein hethnigrwydd ac, am y tro cyntaf, ein data ar y bwlch cyflog ar gyfer pobl anabl yn 2020/21. Mae'r adroddiad yn ein helpu i benderfynu beth yw ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn y flwyddyn i ddod. | Adroddiad Ch2 2021/22 |

| | |
|---|---|
| **Lleihau ôl troed carbon.** Gyda'r nod o ennill ardystiad ISO14001 erbyn Ch4 21/22, ac fel rhan o'n cynllun Lleihau, Ailddefnyddio, Ailgylchu, byddwn yn edrych ar y canlynol: rheoli amgylcheddol i fod yn fwy amlwg yng nghyfeiriad strategol y sefydliad; gweithredu mentrau rhagweithiol i warchod yr amgylchedd rhag niwed, fel defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a lliniaru newid yn yr hinsawdd; ychwanegu strategaeth gyfathrebu sy'n canolbwyntio ar randdeiliaid; ac integreiddio'n haws â systemau rheoli eraill. | Adroddiad Ch4 2021/22 |
| **Adolygiadau o'r sector busnes sbectrwm.** Rydym yn adolygu rôl sbectrwm o ran cefnogi rhwydweithiau dosbarthu ynni i gyrraedd targedau'r Llywodraeth ar niwtraliaeth carbon a rheoli modelau dosbarthu newydd. Byddwn hefyd yn diweddaru ein strategaeth lloeren a gofod i adnewyddu ein rhaglen waith ac i nodi gweithgareddau newydd i gefnogi rôl gynyddol y sector hwn. | Parhaus |
| **Fforwm Cydweithredu ar gyfer Rheoleiddio Digidol (DRCF).** Gan adeiladu ar y gwaith o greu'r Fforwm ym mis Gorffennaf 2020, byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac, o 1 Ebrill 2021, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau dull rheoleiddio cydlynol ar gyfer materion a gwasanaethau ar-lein. Mae cynllun gwaith y Fforwm ar gyfer 2021/22 yn cynnwys gwaith arfaethedig ar faterion fel: prosesu algorithmig; datblygu ein galluoedd; a gweithio drwy ryngweithio polisi penodol fel sut mae'r drefn VSP a'r cod plant yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr y rhyngrwyd. | Parhaus |
| **Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd a'r defnydd o rwydweithiau band eang a symudol yn y diweddariad blynyddol hwn, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o wledydd y DU. | Cyhoeddi Ch1,Ch2 a Ch3 2021/22 |
| **Cyfryngau'r Genedl.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar dueddiadau allweddol yn y sector teledu a fideo, a'r sector radio a sain, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. | Adroddiad Ch2 2021/22 |
| **Ein Gwlad Ar-lein.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ynghylch beth mae pobl yn ei wneud ar-lein, sut wasanaeth maent yn ei dderbyn gan ddarparwyr cynnwys a llwyfannau ar-lein, a'u hagweddau tuag at ddefnyddio'r rhyngrwyd a'u profiadau o hynny. | Adroddiad Ch1 2021/22 |
| **Ymddygiad defnyddwyr a'u profiad o ddefnyddio gwasanaethau symudol.** Byddwn yn defnyddio data torfol i archwilio sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau ffôn symudol ac ansawdd y perfformiad a ddarperir iddynt gan weithredwyr rhwydweithiau symudol. | Adroddiad Ch2 2021/22 |
| **Adrodd ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Yn | Adroddiad Ch1 2021/22 |

| | |
|---|---|
| ogystal â hyn, er mwyn ategu ein harolygon meintiol, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg oedolion y DU. | |
| **Adrodd ar lythrennedd plant yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau. Ochr yn ochr â hyn, er mwyn ategu ein harolygon meintiol, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil hydredol, ethnograffig, ansoddol ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc. | Adroddiad Ch4 2021/22 |